# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | | AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 5 RHAGFYR 2017 am 2:00 y. p. | | TUESDAY, 5 DECEMBER, 2017 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1 - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Robin Williams

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

R. Llewelyn Jones *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 21 MEDI, 2017** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno ofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2017.

Yn codi –

Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh i adrodd ar sut yr ymdrinir â'r bygythiad o weithgareddau hacio maleisus.

3 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 15 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio a Risg.

4 **ARCHWILIO ALLANOL: LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2016/17** (Tudalennau 33 - 36)

Cyflwyno'r Llythyr Archwilio Blynyddol ynghyd â'r Llythyr Cwblhau'r Archwiliad am 2016/17.

5 **ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI TRYSORLYS 2017/18** (Tudalennau 37 - 50)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151.

6 **ADOLYGU'R STRATEGAETH A'R FFRAMWAITH RHEOLI RISG** (Tudalennau 51 - 74)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

7 **BLAEN RAGLEN WAITH 2017/18** (Tudalennau 75 - 80)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio a Risg.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br>Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Griffiths, Gwilym O.Jones, Dylan Rees, Alun Roberts.<br><br>Aelodau Lleyg: Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ac Uwch Berchennog Risg Dynodedig (ar gyfer eitemau 3 a 4)<br>Pennaeth Archwilio a Risg (MP)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd) (ar gyfer eitem 6)<br>Uwch Archwilydd (ECW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Robin Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd John Griffith (Aelod Portffolio Cyllid), Ian Howse (Aweinydd Ymgysylltu: Archwilio Ariannol, Deloittes), Gwilym Bury (Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru), Michelle Hopton (Rheolwr Archwilio Ariannol, Deloittes), Uwch Reolwr Cyfrifeg (BHO), Rheolwr Cyllid (CK), Uwch Archwilydd (SAJ) |

---

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2. COFNODION CYFARFOD 25 GORFFENNAF, 2017.

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf, 2017 ac fe'u cadarnhawyd fel cofnod cywir.

Materion yn codi –

Mewn perthynas â'r Uned Cynnal a Chadw Tai a'r materion y tynnwyd sylw atynt gan adolygiad archwilio mewnol mewn perthynas â System Orchard a ddefnyddir gan y Gwasanaeth er mwyn rheoli ei asedau tai, gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad a yw'r system yn effeithiol ac yn addas ar gyfer y gwaith. Gan nad oedd y cwestiwn wedi'i ateb yn ddigonol yn y cyfarfod blaenorol, darparu'r Pwyllgor â sicrwydd mai dyma'r sefyllfa.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod System Rheoli Tai Orchard wedi bod yn cael ei defnyddio ers peth amser ac y bydd angen gwneud penderfyniad un ai i adnewyddu'r system neu dendro am system newydd. Bydd hyn yn ddibynnol ar werthuso os mai Orchard yw'r system gywir er mwyn bodloni anghenion y



DRAFT

Gwasanaeth Tai a'r Uned Cynnal a Chadw Tai yn y dyfodol. Cynhelir yr asesiad hwn yn ystod y misoedd nesaf cyn gwneud penderfyniad terfynol am y system Rheoli Tai.

**3. LLYWODRAETHU GWYBODAETH – ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (SIRO)**

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), a ddarparodd ddadansoddiad o'r materion llywodraethu gwybodaeth allweddol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 31 Mawrth, 2017, ynghyd â'r blaenoriaethau presennol.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r SIRO Dynodedig ar y pwyntiau mwyaf amlwg fel a ganlyn –

- Y prif yrrwr statudol mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth yn y Cyngor ar hyn o bryd yw'r Ddeddf Diogelu Gwybodaeth. Gallai torri rheolau'r ddeddf mewn modd sylweddol olygu cosbau ariannol sylweddol hyd at uchafswm o £500k.
- Mae gwaith archwilio sylweddol, yn cynnwys gwaith Swyddfa'r Comisiwn Gwybodaeth (SCG) (2013-14) wedi tynnu sylw at ddiffygion yn nhrefniadau diogelu data'r Cyngor. Ers 2013, mae'r Cyngor wedi buddsoddi er mwyn gwella ei allu i gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data ac mae polisïau a gweithdrefnau bellach yn eu lle er mwyn cefnogi a chydymffurfio â'r Ddeddf.
- Bod gwaith wedi'i wneud hyd yma ac mae'n parhau, ac fe fydd yn mynd yn ei flaen yn barhaol. Mae'n cael ei arwain gan y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol a sefydlwyd yn 2014 yn wreiddiol a hynny fel tîm prosiect i ymateb i argymhellion archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2013. Mae'r Bwrdd bellach yn strwythur llywodraethu parhaol sy'n adrodd yn ôl i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Mae crynodeb o'r gwaith y mae'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol wedi'i wneud ac y mae'n dal i'w wneud wedi'i gynnwys yn adran 5 yr adroddiad.
- Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu fersiwn gychwynnol o Gofrestr Asedau Gwybodaeth y Cyngor. Mae'r gofrestr yn galluogi gwybodaeth a systemau gwybodaeth i gael eu mapio wrth iddynt ryngweithio â newidiadau i ofynion busnes a'r amgylchedd technegol ac mae'n declyn allweddol ar gyfer gallu deall y wybodaeth a gedwir gan sefydliad a'r risgiau ynghlwm â hynny. Er mai'r bwriad oedd gwneud gwaith pellach ar y Gofrestr Asedau Gwybodaeth er mwyn asesu lle mae'r risgiau uchaf o ran torri rheolau data, mae'r Rheolau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a fydd yn disodli'r ddeddfwriaeth diogelu data bresennol ym Mai 2018, yn golygu bod angen rhoi blaenoriaeth i agweddau eraill o'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth. Yr arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw canolbwyntio ar waith sy'n ymwneud ag amserlenni cadw gwybodaeth. Mae amserlenni cadw gwybodaeth y Cyngor bellach wedi'u cwblhau ar sail gwasanaeth wrth wasanaeth a byddant yn cael eu cylchredeg i Benaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn rhoi mwy o bwysigrwydd ar gydymffurfio â dyddiadau dinistrio gwybodaeth a gedwir yn electronig ac ar bapur ac felly mae'r amserlenni cadw gwybodaeth yn gam allweddol i'r cyfeiriad hwnnw.
- Mae'r Cyngor wedi creu polisïau a gweithdrefnau Llywodraethu Gwybodaeth dros amser ac maent yn gyfredol ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor wedi gweithredu system reoli polisïau, y Porth Polisi, sydd wedi gweithredu fel llyfrgell bolisïau ers Tachwedd 2016. Mae paragraff 5.3 o'r adroddiad yn rhestru'r polisïau sydd ar gael ar y Porthol. Mae'r system yn ddefnyddiol er mwyn darparu rheolaeth fersiynau clir o ran pa bolisïau sy'n gyfredol yn ogystal â dyddiadau eu hadolygu. Mae'r swyddogaeth clicio i dderbyn yn rhoi sicrwydd bod y polisïau Llywodraethu Gwybodaeth allweddol yn cael eu darllen, eu deall a'u derbyn gan staff. Mae'r UDA yn cael adroddiadau ar y lefel o gydymffurfiaeth mae'r rhain yn gymysg ar draws y Cyngor. Nid yw Gwasanaethau Cymdeithasol er enghraifft yn cydymffurfio i lefel uchel ac mae materion TGCh gydag Addysg sy'n golygu nad ydynt wedi eu cynnwys yn y system. Ystyrir bod y gwasanaethau hyn, oherwydd natur y wybodaeth sydd ganddynt, yn wasanaethau risg uchel o ran torri diogelwch data. Bydd

cyfnod o oedi ac adolygu ar ddiwedd y chwarter nesaf er mwyn rhoi cyfle i ystyried beth ellir ei wneud er mwyn cynyddu'r lefelau cydymffurfiaeth.

- Mae adran 5.6 o'r adroddiad yn amlinellu'r trefniadau hyfforddiant y mae'r Cyngor wedi eu sefydlu ar gyfer staff; mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant sylfaenol gorfodol ar gyfer yr holl staff a gaiff ei adnewyddu bob dwy flynedd. Mae lefelau cydymffurfiaeth yn 88%. Mae hyfforddiant wedi'i nodi fel maes arwyddocaol yn yr holl adroddiadau y mae'r Cyngor wedi'u derbyn mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth. Mae llwyfan E-ddysgu ar fin cael ei lansio a bydd y pecyn hyfforddiant gorfodol hefyd yn cael ei ddarparu drwy'r dull hwn.
- Mae'r dadansoddiad a'r nifer o faterion diogelwch diogelu data yr adroddwyd arnynt gan y Cyngor wedi'u darparu yn Atodiad A yr adroddiad. Cafwyd 34 o achosion yn ystod cyfnod yr adroddiad; o'r rhain nodwyd 33 fel rhai Lefel 0 i Lefel 1 h.y. pethau a fu bron â digwydd neu achosion nad oes angen hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nag unrhyw reoleiddiwr arall amdanynt. Cafwyd un digwyddiad Lefel 2 yr hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdano. Mae cyfran y digwyddiadau Lefel 0 i Lefel 1 wedi cynyddu'n sylweddol o 6 yn adroddiad y flwyddyn flaenorol. Mae cyfran sylweddol yr achosion yn ymwneud â gwybodaeth a anfonwyd dros e-bost. Mae'r SIRO o'r farn bod y cynnydd mewn achosion Lefel 1 yn digwydd oherwydd mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i riportio achosion o dorri rheolau diogelwch data yn hytrach na gwaethygiad o safbwynt arferion diogelwch data.
- Mae Adran 5.10 yr adroddiad yn cyfeirio at berfformiad yn erbyn dangosyddion Perfformiad allweddol.
- Mae Adran 6.1 yr adroddiad yn cadarnhau bod y Cynllun Gweithredu a grëwyd er mwyn ymateb i'r argymhellion yn y Rhybudd Gorfodaeth a roddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Hydref 2015 o dan y Ddeddf Diogelu Data bellach wedi'i gwblhau ac mae adroddiad cau i'r UDA wedi'i amserlennu ar gyfer Medi 2017.
- Bydd yr Adran Archwilio Mewnol yn ymgymryd ag archwiliad o barodrwydd GDPR rhwng Hydref a Thachwedd 2017; yn ychwanegol at hynny, mae matrics yn cael ei lenwi ar hyn o bryd er mwyn adnabod y camau y mae angen eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r GDPR erbyn Mai 2018. Caiff hwn ei rannu â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac yna'r Penaethiaid Gwasanaeth.
- I gloi, mae'r SIRO yn ystyried bod digon o dystiolaeth i ddangos bod –

    - Trefniadau'r Cyngor ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a chydymffurfiaeth o ran diogelu data yn rhesymol effeithiol;
    - Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud (o fan cychwyn isel) i weithredu argymhellion gwaith archwilio'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a gweithgareddau gorfodi;
    - Nid yw'r mesurau angenrheidiol wedi eu gweithredu'n llawn hyd yma a lle maent wedi eu gweithredu'n llawn, nid ydynt wedi aeddfedu'n ddigonol er mwyn gallu darparu gwell lefel o sicrwydd;
    - Er mwyn symud i lefel uwch o sicrwydd bydd angen gweithredu a phrofi'n llwyddiannus y camau pellach a ddisgrifir yn yr adroddiad;
    - Mae cydymffurfiaeth o ran diogelu data yn gyffredinol y Cyngor (mae amrywiaeth rhwng gwasanaethau) yn parhau i fod yn risg ganolig i'r Cyngor.
    - Bydd unrhyw fethiant i weithredu a chydymffurfio â'r GDPR yn risg sylweddol i'r Cyngor.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a chodwyd y pwyntiau a ganlyn -

Nododd y Pwyllgor nad yw'r SIRO yn gallu adrodd ar ddigonolrwydd y rheoliadau a'r mesurau lliniaru risg sydd ar hyn o bryd yn gysylltiedig â phob ased critigol oherwydd nad oes gan y Cyngor hyd yma ddealltwriaeth gyflawn o'r risgiau o ran gwybodaeth a'r mesurau lliniaru a'r rheoliadau sydd wedi cael eu sefydlu. Gofynnodd y Pwyllgor am

gadarnhad o’r camau y mae angen i’r Cyngor eu cymryd er mwyn cael dealltwriaeth lawn o’r sefyllfa mewn perthynas â risg gwybodaeth a’r ffordd y caiff ei reoli yn ogystal â’r goblygiadau o ran adnoddau sy’n gysylltiedig â hynny. Dywedodd y SIRO, er mwyn cael y lefel hon o ddealltwriaeth, bod angen edrych ar y camau a nodir yn yr adroddiad; mae’r rhain yn cynnwys y Gofrestr Asedau Gwybodaeth a fydd, ar ôl ei llenwi, yn cynnwys Amserlenni Cadw Gwybodaeth; hysbysu’r cyhoedd am y defnydd o ddata personol drwy rybuddion preifatrwydd ar ddogfennau ac ymgymryd ag Asesiadau Effaith Preifatrwydd yn ôl yr angen. Dyma dair elfen allweddol y mae angen eu sefydlu’n gadarn yn y Cyngor fel y gall y SIRO fodloni ei hun bod y Cyngor yn gwneud cymaint â phosib er mwyn deall a rheoli risgiau gwybodaeth a’r amgylchedd reoli gysylltiedig. Cadarnhaodd y Swyddog hefyd bod yr adnoddau presennol yn annigonol yng nghyd-destun y gwaith sydd angen ei wneud; mae gwaith hefyd yn cael ei gyflawni ar lefel ranbarthol er mwyn hwyluso cysondeb ac osgoi dyblygu. Tra bod Adran Busnes y Cyngor yn arwain ar ddarparu’r polisïau a’r gweithdrefnau a sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei gomisiynu, mae disgwyliad ar wasanaethau i gyfrannu i’r broses gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i wybod pa wybodaeth sydd ganddynt a pham a pha systemau a ddefnyddir i reoli’r wybodaeth honno. Mae’n gyfrifoldeb a rennir ar draws y Cyngor yn gorfforaethol gyda Busnes y Cyngor yn darparu gwasanaethau â’r cymorth angenrheidiol i reoli’r risgiau gwybodaeth o fewn eu gwasanaethau.

- Nododd y Pwyllgor bod y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg ar ei hôl hi o ran cydymffurfiaeth â system Clicio i Dderbyn y Cyngor ar gyfer derbyn polisïau. Gan y cydnabyddir fod y ddau wasanaeth yma yn rhai risg uchel o ran diogelwch data oherwydd natur y wybodaeth sydd ganddynt, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod camau’n cael eu cymryd i wella lefelau cydymffurfiaeth y ddau wasanaeth. Dywedodd y SIRO bod lefelau cydymffurfiaeth yn 74% ar draws y Cyngor gyda rhai adrannau yn cyflawni lefelau cydymffurfiaeth o 90% a throsodd. Mae lefelau cydymffurfiaeth Gwasanaethau Oedolion yn 60% a Gwasanaethau Plant yn 38%. Nid yw’r Gwasanaeth Addysg yn rhan o’r System Derbyn Polisi ar hyn o bryd oherwydd materion TGCh gyda’r system a rennir gydag ysgolion nad yw’r broses derbyn polisi yn berthnasol iddynt. Mae cyfnod oedi ac adolygu 8 wythnos wedi dechrau ac yn ystod y cyfnod hwn fe gynhyrchir adroddiad pellach ar gyfer yr UDA a’r Penaethiaid.
- Nododd y Pwyllgor fod cyfran uchel o’r achosion diogelwch data Lefel 0 i Lefel 1 yn ymwneud â gwybodaeth a anfonwyd drwy e-bost. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad ynghylch a yw’r mater hwn yn ganlyniad i gamgymeriadau gan bobl neu’n fater systematig sydd angen mewnbwn gan y gwasanaeth TGCh o ran adolygu cadernid y system e-bost. Dywedodd y SIRO bod y prif risg yn ymwneud â’r posibilrwydd y caiff gwybodaeth yn cael ei rhannu â phartïon allanol diawdurdod. Mae Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd wedi argymell y dylai’r Cyngor ystyried hepgor y swyddogaeth llenwi cyfeiriad yn awtomatig ar y system e-bost. Mae’r UDA wedi gofyn i bob gwasanaeth adolygu ei ddefnydd o’r cyfleuster llenwi cyfeiriad yn awtomatig yn erbyn y risg o dorri rheolau data. Canlyniad hyn oedd bod dau wasanaeth a dwy adain wedi rhoi’r gorau i ddefnyddio’r cyfleuster ond mae’r rhan fwyaf wedi penderfynu parhau i’w ddefnyddio gan eu bod yn ei weld yn declyn defnyddiol o safbwynt busnes. Y cam nesaf yw annog pob aelod o staff i gynnwys eu llun ar y system e-bost Outlook; bydd adroddiad i’r perwyl hwnnw yn cael ei gyflwyno i’r UDA. Fel dewis arall, gellir rhoi rhif cyswllt ac adran yr unigolyn yn y bwlch lle ddylai’r llun ymddangos. Credir y bydd hyn yn lleihau’r risg mewn perthynas â diogelwch data sy’n codi o’r swyddogaeth llenwi cyfeiriad yn awtomatig.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o agwedd y Cyngor tuag at y risg y gallai data gael ei beryglu o ganlyniad i hacio maleisus gan bartïon allanol. Dywedodd y SIRO mai mater technegol yw hwn sy’n gyfrifoldeb ar yr adran TGCh yn hytrach na’r SIRO. Mae’r gwasanaeth TGCh yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth a bydd materion TGCh yn cael sylw yno.

- O ran GDPR, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod gan y Cyngor adnoddau a chapasiti digonol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth erbyn Mai, 2018. Dywedodd y SIRO, y bydd y ganolfan gorfforaethol, gyda pheth cyllid ychwanegol sydd i'w gadarnhau yn ddibynnol ar yr union anghenion, yn gallu dosbarthu'r gwaith i'r gwasanaethau; bydd yn rhaid i'r ganolfan gadarnhau a oes ganddynt yr adnoddau i allu gwneud yr hyn sydd angen iddynt ei wneud ai peidio. Bydd hyn yn cael sylw yn y Cynllun Gweithredu a gyflwynir i'r UDA a'r Penaethiaid.

Fe wnaeth y Pwyllgor dderbyn a nodi casgliadau'r SIRO mewn perthynas â'r sefyllfa o ran Llywodraethu Gwybodaeth yn y Cyngor. Er bod y Pwyllgor yn bryderus bod lefel cydymffurfiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn is na'r disgwyl o ran system Derbyn Polisïau'r Cyngor, derbynnir bod yr Uwch Reolwyr yn ymwybodol o hyn ac yn asesu'r sefyllfa er mwyn ceisio cymryd camau i wella lefelau cydymffurfiaeth y gwasanaethau hyn.

**Penderfynwyd nodi a derbyn yr adroddiad gyda'r amod uchod.**

**GWEITHRED YCHWANEGOL A GYNIGIWYD: Gwasanaeth TGCh i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ymagwedd y Cyngor tuag at ddelio â bygythiad gan weithgareddau hacio maleisus.**

**4. PRYDERON, CWYNION A CHWYTHU CHWIBAN 2016/17**

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a oedd yn nodi'r materion yn codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill, 2016 i 31 Mawrth, 2017 ynghyd â chrynodeb o faterion chwythu chwiban a nodwyd yn ystod yr un cyfnod. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cwynion Gwasnaethau Cymdeithasol ond dim ond y rhai hynny lle nad oedd yr achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Mae cwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael sylw dan y Polisi Gwasnaethau Cymdeithasol - Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion ar gyfer Plant ac Oedolion ac fe adroddir yn ôl arnynt bobl blwyddyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro fel a ganlyn –

- Bod 191 o bryderon wedi dod i law a bod 74 o gwynion wedi eu gwneud yn ystod cyfnod yr adroddiad. O'r 74 o gwynion, ni chafodd 3 eu dilyn i fyny am y rhesymau a amlinellwyd gan olygu felly yr ymchwiliwyd i 71 o gwynion ac yr anfonwyd ymatebion ffurfiol i'r achwynwyr.
- O'r 71 o gwynion a gafodd sylw yn ystod y cyfnod, cafodd 12 eu cadarnhau yn llawn; cafodd 10 eu cadarnhau yn rhannol ac ni chadarnhawyd 48 o'r cwynion. Cyfeiriwyd 24 o gwynion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ond ni dderbyniwyd unrhyw un ar gyfer ymchwiliad. O'r cwynion i'r OGCC, roedd 12 wedi derbyn sylw drwy'r broses fewnol yn ystod 2016/17 tra bo'r 12 a oedd yn weddill wedi mynd â'u cwynion yn syth at yr OGCC.
- Cafwyd cynnydd o 12 yn nifer y cwynion a gafwyd ers y 59 a gafwyd yn 2015/16. Mae rhai gwasanaethau wedi cael cwynion am y tro cyntaf; mae rhai wedi cael cwynion am gynnydd mewn ffioedd, eraill o ganlyniad i newid mewn polisi e.e. casgliadau sbwriel bob 3 wythnos a chodi tâl am finiau newydd a gyflwynwyd gan y Gwasanaethau Rheoli Gwastraff. Arweiniodd y newidiadau hyn at gynnydd yn nifer y galwadau ffôn i'r gwasanaeth ac o ganlyniad cafwyd pryderon a chwynion am yr amser yr oedd yn gymryd i ateb galwadau.
- Yn gyffredinol, ymatebwyd, ymatebwyd i 93% o'r cwynion o fewn yr amserlen benodol o 20 diwrnod gwaith. Pan fydd ymatebion yn hwyr, disgwylir i'r gwasnaeth anfon ymateb dros dro i'r achwynydd er mwyn eu hysbysu o'r cynnydd, y rheswm am yr oedi a'r cyfnod ymateb disgwyliedig.



DRAFT

- Darperir crynodeb o gwynion yn ôl gwasanaeth ym mharagraff 8 o'r adroddiad.
- O ddadansoddi'r uchod, roedd 21% o'r cwynion a gafwyd yn ganlyniad i bryderon a uwchgyfeiriwyd; cafodd 72% o gwynion eu gwneud yn uniongyrchol i'r broses fewnol ffurfiol a chafodd y 7% sy'n weddill eu hanfon at y Cyngor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan ei fod wedi gwrthod rhoi sylw iddynt hed nes i brosesau mewnol y Cyngor ar gyfer delio â chwynion gael ei gweithredu yn y lle cyntaf.
- Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu gwersi o gwynion a gwella gwasanaethau o ganlyniad. Mae atodiad 1 yr adroddiad yn ceisio edrych pa wersi sydd wedi eu dysgu a pha arferion sydd wedi datblygu o ganlyniad. Fodd bynnag, heblaw am y materion Rheoli Gwastraff a adroddwyd arnynt yn yr adroddiad diwethaf a'r materion Rheoli Gwastraff a nodwyd eleni o ganlyniad i newidiadau polisi sy'n awgrymu y dylid cynllunio ymlaen llaw ar gyfer unrhyw newidiadau polisi sy'n effeithio ar y cyhoedd yn uniongyrchol, nid oes unrhyw batrwm arall i'r cwynion a gafwyd gan y gwasanaethau eraill. Un neges gorfforaethol glir yw'r fantais o hysbysu'r achwynydd am gynnydd y materion a godwyd.
- Mae adran 10 yr adroddiad yn crynhoi'r cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chanlyniadau hynny.
- Mae Adran 11 yr adroddiad yn crynhoi'r cwynion am Aelodau. Adroddir ar y rhain mewn mwy o fanylder i'r Pwyllgor Safonau.
- Mae Adran 16 o'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r cwynion chwythu chwiban a adroddwyd gan wasanaethau ar gyfer y cyfnod o dan sylw.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn bod yr adroddiad yn darparu sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r broses angenrheidiol o dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion a'i Bolisi / Canllawiau Chwythu Chwiban.**
- **Derbyn a nodi'r Gwersi a Ddysgwyd yn Atodiad 1 yr Adroddiad heb unrhyw sylwadau pellach.**
- **Cymeradwyo hepgor y data canmoliaeth o adroddiadau'r dyfodol ac y dylid adrodd ar y rhain a''u trafod mewn Adolygiadau Gwasanaeth.**
- **Nodi'r argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad Archwilio Mewnol – Diwylliant Moesegol Cyngor Sir Ynys Môn – mewn perthynas â'r ffaith "nad yw'r Cyngor yn cofnodi datgeliadau Chwythu Chwiban yn ganolog" a "bod risg na fydd y Cyngor yn adnabod tueddiadau ac yn gweithredu'n brydlon" ac i nodi hefyd y bydd hyn yn fater i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ei benderfynu.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL.**

**5. DATGANIAD O GYFRIFON AC ADRODDIAD ISA 260**

5.1 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 a oedd yn ymgorffori'r Datganiad Cyfrifon 2016/17 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor ac ar gyfer ei dderbyn.

Hysbyswyd y Pwyllgor y cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon drafft i'r pwyllgor ar gyfer ei archwilio ar 28 Mehefin, 2017. Mae'r gwaith archwilio pellach wedi'i gwblhau erbyn hyn ac mae adroddiad yr Archwilydd wedi cael ei gyflwyno ac mae nifer fechan o welliannau i'r drafft wedi eu hymgorffori yn y cyfrifon.

Bu modd cwblhau'r cyfrifon wedi'u harchwilio ar gyfer 2016/17 erbyn y dyddiad cau unwaith eto. Mae'r gwelliannau a nodwyd yn archwiliad y flwyddyn flaenorol wedi eu gweithredu ac mae'r gwelliannau hyn wedi parhau. Mae'r holl faterion wedi cael sylw prydlon a boddhaol drwy gydol yr archwiliad. Mae manylion y prif welliannau i'r cyfrifon drafft wedi eu cynnwys yn adroddiad yr Archwiliwr. Mae'r holl welliannau sydd wedi eu

cytuno fel rhai sydd angen ail ddatganiad gan Deloitte wedi eu prosesu ac maent wedi eu cynnwys yn y Datganiad o Cyfrifon. Darperir crynodeb o'r gwelliannau sylweddol i'r Datganiad drafft yn adran 3.2 o'r adroddiad. Mae'r Archwilwyr wedi gwneud 8 argymhelliad mewn perthynas â chyfrifo a rheoli'r gyflogres; 6 argymhelliad mewn perthynas â TG a 7 argymhelliad mewn perthynas â Phrisiant Asedau.

5.2 Cyflwynwyd adroddiad yr Archwilydd Allanol ar yr archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2016/17 (Adroddiad ISA 260) ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd Mr Ian Howse, Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer Archwiliwr Ariannol fel a ganlyn-

- Y derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2017 gan yr Archwilwyr ar 12 Mehefin, 2017 a bod y gwaith archwilio yn dilyn hynny bellach wedi'i gwblhau. Ar y dyddiad o gyhoeddi'r adroddiad archwilio ar y datganiadau ariannol, roedd y tri mater a nodir yn adran 6 o'r adroddiad yn parhau i fod angen sylw.
- Yn amodol ar gwblhau'r gwaith sy'n weddill mewn modd boddhaol, bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y mae'r Awdurdod wedi darparu Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1 o'r adroddiad.
- O ran materion sylweddol sy'n codi o'r archwiliad, mae un camddatganiad sydd heb ei gywiro o'r flwyddyn flaenorol sydd wedi'i drafod gyda'r Rheolwyr ond sydd dal heb ei gywiro. Cytunwyd nad oedd angen ailddatganiad gan na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar y fantolen yn 2016/17. Darperir manylion pellach yn Atodiad 3 yr adroddiad.
- Mae'r rhain yn gamddatganiadau sydd wedi eu cywiro gan y Rheolwyr ac a dynnir at sylw'r Pwyllgor oherwydd eu bod yn berthnasol i'w gyfrifoldebau dros y broses adrodd ariannol. Mae'r rhain wedi eu nodi gydag esboniadau yn Atodiad 3.
- Darparwyd yn y Cynllun Archwilio Ariannol wybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a gafodd eu hadnabod yn ystod proses gynllunio'r Archwilydd. Mae'r tabl yn adran 12 yr adroddiad yn nodi canlyniad gweithdrefnau archwilio'r archwilydd mewn perthynas â'r risgiau hynny. Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â'r Cynllun Archwilio Ariannol.
- Yn ystod yr archwiliad, rhoddir ystyriaeth i nifer o faterion ansoddol a meintiol yn ymwneud â'r cyfrifon a bydd unrhyw faterion sylweddol yn cael eu hadrodd yn ôl arnynt i'r Pwyllgor. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni.
- Nid oes gan yr Archwilwyr unrhyw bryderon am agweddau ansoddol ymarferion cyfrifo'r Cyngor a'i adrodiadau ariannol. Mae'r Archwilwyr wedi dod i'r casgliad bod polisïau cyfrifo ac amcangyfrifon yn briodol a bod datgeliadau datganiadau cyfrifon yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.
- Ni ddaethpwyd ar draws unrhyw faterion sylweddol yn ystod yr archwiliad.
- Ni thrafodwyd unrhyw faterion sylweddol ac ni thrafodwyd â'r Rheolwyr unrhyw faterion sydd angen eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor.
- Nid oes angen adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i oruchwyliaeth y broses adrodd ariannol.
- Ni chafodd unrhyw wendidau sylweddol i reoliadau mewnol eu hadnabod er y tynnir sylw at nifer o feysydd lle gellid gwella rheolaeth.
- Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen, yn ôl safonau archwilio, eu cyfathrebu i'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb am lywodraethiant.
- Mae'r argymhellion sy'n codi o'r gwaith archwilio ariannol wedi eu nodi yn Atodiad 4 o'r adroddiad. Mae Rheolwyr wedi ymateb iddynt a bydd y cynnydd ar eu gweithrediad yn cael ei wirio yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol –

- Nododd y Pwyllgor fod y broses o baratoi'r cyfrifon wedi bod yn amserol a bod y cyfrifon wedi eu cyflwyno yn unol â'r amserlen statudol. Nododd y Pwyllgor ei ddiolch i staff yr Adran Gyllid am eu gwaith o ran sicrhau bod y cyfrifon wedi cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau.
- Nododd y Pwyllgor fod yr Archwilwyr Mewnol yn fodlon â safon arferion cyfrifo'r Cyngor a'r datganiadau ariannol a bod yr Archwilwyr o'r farn bod y datganiadau ariannol wedi eu cyflwyno'n deg a bod y datgeliadau a wnaed yn glir ac yn ddiduedd.
- Nododd y Pwyllgor na gododd unrhyw faterion sylweddol yn ystod yr Archwiliad.
- Nododd y Pwyllgor y nodir yn y cyfrifon bod y Cynllun Pensiwn Athrawon, er yn dechnegol yn gynllun buddion diffiniedig, yn cael ei nodi fel un nad yw'n cael ei ariannu ac nad yw'r atebolrwydd hirdymor sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn cael ei gydnabod yn y Fantolen tra bo'r atebolrwydd sy'n codi o ganlyniad i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei gynnwys yn y cyfrifon. Nododd y Pwyllgor hefyd bod yr atebolrwydd sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn nad ydynt yn cael eu hariannu yn cael ei ymgorffori yng nghyfrifon rhai sefydliadau ac oherwydd bod y ffigwr yn un sylweddol, gofynnwyd am gadarnhad a ddylai hynny ddigwydd gyda chyfrifon yr awdurdod lleol ac os nad dyna'r sefyllfa, beth oedd y rheswm am hynny. Dywedodd Mr Ian Howse bod cynnwys atebolrwydd pensiynau yn y cyfrifon yn dibynnu ar a yw'r cynllun yn gynllun buddion wedi'i ddiffinio neu'n gynllun cyfraniadau wedi'i ddiffinio. Mae llawer o gyfrifon llywodraethiant lleol yn ymwneud â ffactorau sy'n effeithio ar y cyfraniad a wneir gan y rhai sy'n talu'r dreth cyngor felly gwneir addasiadau i'r cyfrifon yn unol â hynny. O ran y cynllun pensiwn Llywodraeth Leol, mae'r effaith ar y rhai sy'n talu treth gyngor wedi'i gyfyngu i gyfraniad ariannol  y Cyngor i'r gronfa fel cyflogwr - sy'n eitem refeniw - sy'n cynnwys y cynllun ar gyfer lleihau'r diffyg ariannol o ran pensiynau. Bydd yr holl eitemau eraill sy'n ymwneud ag atebolrwydd pensiynau yn cael eu rhoi yn y cyfrifon ac yna'n cael eu tynnu allan gan nad ydynt yn effeithio ar osod y Dreth Cyngor. O ran y Cynllun Pensiwn Athrawon, nid yw'r Cyngor yn gallu nodi  ei gyfran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun yn ddigon dibyniadwy i ddibenion cyfrifo. Mae cyfrifon y Cyngor yn gyson â rhai awdurdodau eraill o ran y ffordd mae pensiynau'n cael eu trin.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad ar agweddau o berfformiad cyllidebol yn ystod y flwyddyn ac a yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfrifon yn ogystal â digonolrwydd balansau wrth gefn y Cyngor. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y cyfrifon yn adlewyrchu'r gwariant gwirioneddol; adroddir ar fonitro perfformiad ac alldro'r gyllideb mewn man arall. O ran balansau, cadarnhaodd y Swyddog bod balansau Cronfa Gyffredinol y Cyngor ar hyn o bryd ar lefel sydd uwchben yr hyn sy'n cael ei argymell, sef tua 5% o'r gwariant refeniw net. Fodd bynnag, mae risg y bydd y balansau hynny yn lleihau yn y dyfodol wrth i'r Cyngor geisio mynd i'r afael â'r gorwariant a ragwelir

**Penderfynwyd –**

- **Argymell i'r Cyngor Llawn y dylid cadarnhau derbyn Datganiad Cyfrifon 2016/17**
- **Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17 a chyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr ar gyfer eu llofnodi.**
- **Derbyn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a nodi ei gynnwys.**

## 6. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn darparu diweddariad ar gynnydd Archwilio Mewnol mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth a'r adolygiadau a gwblhawyd.

Adroddodd y pennaeth Archwilio a Risg fel a ganlyn –

- Cafodd 5 adroddiad adolygu archwilio mewnol eu cwblhau yn ystod y cyfnod fel y nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiadau. Canlyniad dau o'r adroddiadau - Trafnidiaeth Ysgol a'r Fframwaith Caffael Corfforaethol - oedd barn Sicrwydd Cyfyngedig. Derbyniodd y Pwyllgor y fersiynau llawn o'r adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig ar wahân i'r agenda.
- Bod yr adolygiadau dilynol ynghylch dau faes a aseswyd yn flaenorol fel rhai a oedd yn darparu Sicrwydd Cyfyngedig, sef yr Uned Cynnal a Chadw Tai ac Adfer Trychineb TGCh yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi'r gweithredoedd a gytunwyd ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau yn y meysydd a nodwyd ac o ganlyniad fod yr Uned Cynnal a Chadw Tai bellach wedi'i hailasesu fel adran sy'n darparu Sicrwydd Rhesymol ac Adfer Trychineb TGCh fel un sy'n darparu Sicrwydd Sylweddol.
- Hyd yma, mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cwblhau 22% o'r Cynllun Blynyddol ac mae 17% pellach yn waith sydd ar y gweill. Mae'r ymagwedd archwilio mewnol yn cael ei adolygu; yn ychwanegol at hyn, o ganlyniad i newidiadau i drefniadau twyll corfforaethol a llithriant sylweddol o 2016/17, mae'r adnoddau sydd ar gael er mwyn gallu cwblhau Cynllun Gweithredu 2017/18 wedi lleihau. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgymryd ag asesiad risg yn ystod chwarter tri a bydd adolygiadau archwilio yn cael eu blaenoriaethu er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu i'r meysydd lle mae'r risg uchaf.
- Roedd cylch gorchwyl y Pwyllgor wedi ei amserlennu i gael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn yn unol â'r Blaen Raglen Waith. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddau fater - amserlen yr hyfforddiant ar 15 Medi pan fydd Aelodau'n cael cyfle i adolygu'r cylch gorchwyl ar gyfer priodoldeb arweiniad CIPFA wedi'i ddiweddaru a'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2017 fe argymhellir gohirio adolygu'r cylch gorchwyl tan y cyfarfod mis Rhagfyr y Pwyllgor.

  Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol:

  - Nododd y Pwyllgor ei anesmwythyd â nifer y pryderon y tynnwyd sylw atynt yn yr adolygiad Sicrwydd Cyfyngedig o **Drafnidiaeth Ysgol** mewn perthynas â monitro cydymffurfiaeth contractwyr; rheoliadau gwariant a chasglu incwm. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod camau brys yn cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau systematig a gweithdrefnol a amlygwyd er mwyn gallu dangos bod contractwyr yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion cytundebol; bod y gwasanaeth yn gost effeithiol a bod trefniadau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod yr holl incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael ei gasglu.

    Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod y Pwyllgor Gwaith yn 2016 wedi clustnodi £1 Miliwn o'r Balansau Cyffredinol er mwyn datrys materion prosesau busnes o fewn gwahanol rannau o'r Cyngor gan gynnwys trafnidiaeth ysgol. Mae'r Gwasanaeth Addysg yn Ynys Môn ynghyd â'r rhai yn y pum Awdurdod arall yng Ngogledd Cymru wedi cofrestru ar gyfer y system feddalwedd ONE fel rhan o ymarfer caffael ar y cyd. Mae un o fodiwlau'r system yn ymwneud â thrafnidiaeth ysgol ac yn defnyddio gwybodaeth am gyfeiriadau disgyblion a'r ysgolion y maent yn eu mynychu er mwyn cynhyrchu'r llwybr tacsi/bws gorau a phan gaiff ei ddiweddaru, bydd yn aildrefnu'r llwybr gorau yn unol â hynny. Nid yw Ynys Môn wedi gweithredu'r modiwl hwn hyd yn hyn oherwydd adnoddau a materion glanhau data

ond pan gaiff ei weithredu bydd yn cynhyrchu arbedion gan ei fod yn mabwysiadu ffordd fwy wyddonol o ddewis llwybrau teithiau. Fodd bynnag, er mwyn iddi weithio'n effeithiol mae'n rhaid i'r system fod yn gyfredol ac yn gywir a bydd hyn yn golygu gwaith glanhau data. Roedd gwaith wedi'i gynllunio cyn cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol felly roedd Rheolwyr yn ymwybodol o faterion trafnidiaeth ysgol; mae'r adolygiad Archwilio mewnol yn cadarnhau'r materion hynny ac yn gosod cynllun gweithredu ffurfiol er mwyn mynd i'r afael â nhw.

Mewn perthynas â chasglu incwm, sef mater y cydnabyddir y mae angen ei wella, prif nod y Cyngor yw symud i system lle gwneir taliadau am wasanaethau ar-lein ac ymlaen llaw. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen i'r Cyngor uwchraddio ei systemau ac mae cynlluniau a gwaith i'r perwyl hwnnw ar y gweill.

Rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor holi'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd) am agwedd y gwasanaeth tuag at y materion yn codi. Dywedodd y Swyddog, tra bo angen adolygu'r gwariant ar dacsis ysgol, mae dyfranu contractau ar gyfertacsis a bysiau yn seiliedig ar broses dendro gystadleuol. Yn ogystal, mae trafnidiaeth ysgolion uwchradd ar Ynys Môn yn gyson wedi bod yr ail isaf yng Nghymru o ran cost.

Er bod adborth y Swyddog wedi rhoddi peth sicrwydd i'r Pwyllgor ar y materion a nodwyd gan yr adolygiad Archwilio Mewnol fel rhai a oedd angen sylw a rhai yr oedd mesurau penodol wedi eu hargymell er mwyn cywiro'r materion hynny, yn enwedig o ran rheoliadau a phrosesau, roedd o'r farn y dylid gofyn i Sgriwtini ystyried y materion gwasanaeth sy'n codi, creu cynllun gweithredu ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei ganlyniadau. Yn ychwanegol at hynny, gan fod trafnidiaeth ysgol yn berthnasol i ddau wasanaeth a nifer o swyddogion o fewn y gwasanaethau hynny, cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor y byddai'r broses o roi cynllun gweithredu ar waith yn digwydd yn gyflymach petai tîm rheoli prosiect yn goruchwylio'r gwaith.

- Nododd y Pwyllgor bryder hefyd am yr adolygiad Sicrwydd Cyfyngedig a roddwyd i'r **Fframwaith Caffael Corfforaethol - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol**; gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad bod camau'n cael eu cymryd i wella rheoliadau mewnol a chydymffurfiaeth yn y maes hwn.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y gwnaed cynnydd sylweddol o ran y swyddogaeth Caffael Corfforaethol o fewn yr Awdurdod ers y gwiriad o'r trefniadau caffael a gynhaliwyd yn Ynys Môn ym mis Rhagfyr 2013 gan KPMG a hynny fel rhan o adolygiad caffael yn y 22 Awdurdod yng Nghymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Y prif fater sydd wedi arwain at y raddfa Sicrwydd Cyfyngedig gan yr Adain Archwilio Mewnol yn yr achos hwn yw absenoldeb cofrestr ganolog gynhwysfawr o gontractau sy'n cynnwys gwybodaeth am holl gontractau'r Cyngor ac sydd yna'n cael ei fonitro. Er bod gan y Cyngor gofrestr contractau corfforaethol dywedodd y Swyddog nad oedd modd iddo roi sicrwydd ar hyn o bryd bod y rhestr yn 100% cyflawn. Fodd bynnag, mae'r Tîm Caffael Corfforaethol yn gweithio gyda'r Adran Gyfrifeg a gwasanaethau eraill er mwyn adnabod bylchau yn y gofrestr. Yn ogystal â gweithio ar y gofrestr, mae'r tîm hefyd yn monitro cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael, yn cynghori ac yn ymgymryd â gwaith ar dendrau unigol sy'n gallu cymryd llawer iawn o adnoddau'r tîm. Felly, tra bo Rheolwyr wedi dechrau ar y gwaith o weithredu'r cynllun gweithredu archwilio mewnol, mae'n gwneud hynny fel mae adnoddau a'r pwysau ar y tîm yn caniatáu. Mae gweddill y materion sydd wedi'u hadnabod gan yr adolygiad Archwilio Mewnol yn faterion cadw tŷ yn unig ac yn rhai o risg cymedrol neu fach.

Derbyniodd y Pwyllgor yr esboniad a roddwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 a roedd yn fodlon bod camau priodol yn cael eu cymryd er mwyn ymateb i'r risg a materion rheoli a nodwyd gan Archwilio Menwol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg y cynhelir archwiliadau dilyn i fyny yn y meysydd lle cafwyd graddfa sicrwydd cyfyngedig o fewn chwe mis ac y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn dilyn hynny.

- Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar gynnydd o ran gweithredu argymhellion CSSIW yn dilyn eu hadolygiad o'r Gwasanaethau Plant. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg mai'r Pwyllgor Sgriwtinio Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb llywodraethu am y Cynllun Gweithredu a luniwyd o ganlyniad i adolygiad CSSIW. Yn ychwanegol at hynny, nodwyd bod nifer o aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd yn aelodau o'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant a/neu'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant. Cadarnhaodd yr Aelodau hynny i weddill y Pwyllgor Archwilio bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn derbyn adroddiadau manwl yn rheolaidd a bod cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella ar y trywydd cywir ar hyn o bryd. **O ganlyniad i'r wybodaeth hon, penderfynodd y Pwyllgor nad oedd angen iddynt gael adroddiad diweddaru ffurfiol.**

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd diweddaraf yr Adain Archwilio Mewnol o ran darpariaeth gwasanaeth, sicrwydd ansawdd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithlonrwydd wrth yrru gwelliant ac i dderbyn y sicrwydd a roddwyd yn amodol ar y gweithredoedd ychwanegol a gynigwyd mewn perthynas â'r adroddiad adolygu Archwilio Mewnol ar Drafnidiaeth Ysgol.**
- **Gohirio adolygu amodau a thelerau'r Pwyllgor tan i CIPFA gyhoeddi ei ddogfen arweiniad newydd.**

**CAMAU YCHWANEGOL A GWEITHREDOEDD SY'N CAEL EU HARGYMELL:**

- **Yr adroddiad adolygu Archwilio Mewnol mewn perthynas â Thrafnidiaeth Ysgol i gael ei gyfeirio at Sgriwtini ar gyfer ei archwilio gyda'r argymhelliad y dylid creu Cynllun Gweithredu ac y dylai Tîm Prosiect fonitro a goruchwylio'r Cynllun hwnnw. Y Pwyllgor Archwilio i gael gwybod am ganlyniad yr archwiliad Sgriwtini o'r adroddiad.**
- **Bod darpariaeth yn cael ei wneud yn y Cynllun Archwilio Mewnol i ddangos dyddiad y Pwyllgor Archwilio lle bydd adroddiadau adolygu unigol yn debygol o gael eu cyflwyno.**

**7. ARGYMHELLION ARCHWILIO SY'N WEDDILL**

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn nodi'r argymhellion/risgiau presennol sy'n weddill fel ar 7 Medi 2017. Darparwyd manylion am statws risg pob argymhelliad ynghyd â'r dyddiad gweithredu arfaethedig yn Atodiad A yr adroddiad.

Nododd y Pennaeth Archwilio a Risg bod yr agwedd archwilio mewnol newydd yn golygu tynnu sylw at faterion a risgiau yn hytrach na gwneud argymhellion. Yna, byddant yn cael eu graddio yn unol â fframwaith rheoli risg y Cyngor fel bod gwaith archwilio mewnol wedi'i alinio ag awch y Cyngor o safbwynt risg. Mae'r graff yn 3.4 yr adroddiad yn

DRAFT

dangos bod perfformiad o ran gweithredu'r argymhellion a/neu fynd i'r afael â'r risgiau wedi gwella'n rheolaidd dros y 12 mis diwethaf.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a'r gwelliannau a wnaed.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad.**

**DIM GWEITHREDOEDD YCHWANEGOL WEDI'U CYNNIG**

**8. SIARTR ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, yn cynnwys diweddariad o'r Siartr Archwilio Mewnol, ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod rôl y Pennaeth Archwilio a Risg wedi newid or 1 Ebrill, 2017 i gynnwys cyfrifoldeb am reoli risg a gweithgareddau yswiriant. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod y siartr yn disgrifio'r amddiffyniadau sydd ar gael i gyfyngu ar yr effeithiau andwyol ar annibyniaeth neu wrthrychedd os yw archwilio mewnol neu'r prif swyddog archwilio yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio. Felly, mae'r siartr wedi'i diweddaru a'i diwygio i gynnwyd yr amddiffyniadau hyn.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod gan Archwilio Mewnol adnoddau digonol er mwyn gallu ymgymryd â'i ddyletswyddau yn briodol. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg mai ei rôl hi fel rhan o adroddiad blynyddol y Gwasnaeth oedd rhoi i'r Pwyllgor sicrwydd am drefniadau rheoli mewnol y Cyngor; yn seiliedig ar hynny a'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewno cyfredol, roedd modd iddi ddarparu sicrwydd am addasrwydd yr adnoddau yn y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Fodd bynnag, byddai'r Gwasanaeth yn ei gweld hi'n anodd ymdopi ag unrhyw ostyngiad yn ei adnoddau presennol.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Siartr Archwilio Mewnol sy'n cynnwys yr amddiffyniadau er mwyn cyfyngu ar yr effeithiau andwyol ar annibyniaeth neu wrthrychedd a allai godi petai'r prif swyddog archwilio yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio, sef cyfrifoldeb am reoli risg ac yswiriant.**

**9. BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer ei hadolygu ac am sylwadau.

Hysbysodd Mr Gwilym Bury, Arweinydd Archwilio Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru, y Pwyllgor y byddai'n darparu adborth Swyddfa Archwilio Cymru ar Berfformiad y Rhaglen Waith yng nghyfarfod mis Rhagfyr y Pwyllgor.

**Penderfynwyd derbyn y Blaen Raglen Waith yn amodol ar gynnwys yn rhaglen y cyfarfod ym mis Rhagfyr, ddiweddariad Swyddfa Archwilio Cymru ar Berfformiad y Rhaglen Waith.**

**CAMAU YCHWANEGOL A ARGYMHELLWYD: Rheolwr Archwilio Mewnol i ddiweddaru'r Blaen Raglen Waith yn ôl yr angen.**

**10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Penderfynwyd mabwysiadu'r canlynol wrth ystyried eitem 11 ar yr agenda:

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 22 oherwydd y gallai gwybodaeth eithriedig gael ei

datgelu fel caiff ei diffinio yn Atodlen 12A y Ddeddf dan sylw ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd".

## 11. NEWIDIADAU I DREFNIADAU YMCHWILIO'R CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi'r newidiadau gweithredol i'r drefn o ymchwilio i dwyll yn y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Amlinellodd yr adroddiad y cefndir o ran y newidiadau yn dilyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ymchwilio i'r holl dwyll budd-daliadau o'r Cyngor i Wasanaeth Ymchwilio Sengl yr Adran Gwaith a Phensiynau ym mis Tachwedd 2014 a'r trefniadau a waned gan y Cyngor yn dilyn hynny i barhau i ymchwilio i dwyll yn y maes hwn (gan nad oedd hwn yn cael ei gategoreiddio fel budd-dal) a throseddau eraill yn ymwneud â'r Dreth Gyngor. Yn sgil ymddeoliad, cafwyd cyfle i adolygu'r trefniadau a phenderfynwyd dileu swydd y sawl a ymddeolodd; mae'r adroddiad yn amlinellu'r newidiadau gweithredol a wnaed er mwyn parhau â'r gwaith mewn perthynas â thwyll Cynllun Atgyfeirio'r Dreth Gyngor; y Fenter Dwyll Genedlaethol ac ymchwiliadau eraill i dwyll.

**Penderfynwyd nodi'r newidiadau gweithredol i'r gwaith o ymchwilio i dwyll Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a bod y swydd berthnasol wedi'i dileu o fewn y fframwaith Archwilio Mewnol.**

## 12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd mabwysiadu'r canlynol wrth ystyried eitem 13 ar yr agenda:

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 22 oherwydd y gallai gwybodaeth eithriedig gael ei datgelu fel caiff ei diffinio yn Atodlen 12A y Ddeddf dan sylw ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd".

## 13. COFRESTR RISG GORFFORAETHOL

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel y'i hadolygwyd a'i diweddaru hyd at ddiwedd Chwarter 1 2017/18 gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Adroddodd y Rheolwr Yswiriant a Risg ar y materion canlynol –

- Y prif risgiau (coch) i'r Cyngor
- Risgiau sydd wedi disgyn oddi ar y rhestr
- Risgiau sydd wedi eu hisgyfeirio yn ystod y cyfnod ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr, 2016 oherwydd yr ystyrir bod y risg weddilliol yn is nag yr oedd pan yr adroddwyd arni ddiwethaf.
- Risgiau sydd wedi eu nodi o'r newydd ac sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r rhesymau ar gyfer eu cynnwys.

  Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gofynnwyd am gadarnhad ynghylch agweddau penodol mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer gweithredu camau lliniaru o ran risgiau penodol a'r rhesymeg ar gyfer gweithredoedd sydd â'r nod o leihau effaith rhai risgiau yn hytrach na'r tebygolrwydd y byddant yn codi.



DRAFT

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a bod y Pwyllgor yn cymryd sicrwydd bod y risgiau i nodau ac amcanion y Cyngor yn cael eu cydnabod a'u rheoli gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**

**NI CHAFODD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL EU CYNNIG.**

**Cynghorydd Peter Rogers**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| **Dyddiad:** | **5 Rhagfyr 2017** |
| **Pwnc:** | **Diweddariad Archwilio Mewnol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk** |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am waith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae hefyd yn diweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed ar eitemau penodol fel y gofynnwyd gan y Pwyllgor. Mae'n caniatáu i'r Pwyllgor fonitro cynnydd a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac mae'n rhoi crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol fel y gall y Pwyllgor gael sicrwydd ynghylch gwasanaethau a meysydd corfforaethol eraill y Cyngor. | |

## 1. Rhagarweiniad

**1.1.** Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa fel yr oedd ar 17 Tachwedd 2017 ynghylch:-

- Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd ers 7 Medi 2017;
- Gwaith dilyn-i-fyny a wnaed ar adroddiadau archwilio mewnol blaenorol;
- Gweithredu camau rheoli;
- Y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2017/18;
- Diweddariadau penodol y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
- Adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor.

## 2. Argymhelliad

**2.1.** Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd a pherfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant. Yn ogystal, gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu a oes angen sicrwydd pellach arno ynghylch adroddiadau archwilio.

**2.2.** Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymeradwyo gohirio'r adolygiad o'i gylch gorwyl hyd nes y bydd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wedi cyhoeddi ei ddogfen arweiniad newydd.

## 3. Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar

**3.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar, gan gynnwys y Raddfa Sicrwydd gyffredinol a nifer y Materion / Risgiau a godir yng nghynllun gweithredu'r adroddiad.

**3.2** Rydym wedi cwblhau tri adroddiad yn y cyfnod. Mae crynodeb isod:-

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Catastroffig | Uchel | Cymedrol | Isel | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Trwyddedu | Sylweddol | 0 | 0 | 2 | 1 | 3 |
| Y Dreth Gyngor a Threthi Annomestig | Rhesymol | 0 | 0 | 2 | 1 | 3 |
| Mân-Ddyledwyr Amrywiol | Cyfyngedig | 0 | 7 | 9 | 3 | 19 |

**Gwasanaethau Trwyddedu**

| Sicrwydd Sylweddol | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| | 0 | Catastroffig |
| | 0 | Uchel |
| | 2 | Cymedrol |
| | 1 | Isel |

**3.3.** Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gyhoeddi a rheoleiddio nifer o wahanol fathau o drwyddedau. Mae'r Tîm Trwyddedu yn rhan o'r Gwasanaeth Safonau Masnach, sy'n gweinyddu ac yn gorfodi trwyddedau ar gyfer amrywiol weithgareddau.

**3.4.** Cadarnhaodd ein hadolygiad fod y Tîm Trwyddedu yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor sy'n ymwneud â thrwyddedau. Mae ei archwiliadau a'i drefniadau monitro mewn perthynas â chydymffurfio â meini prawf trwyddedu ac adnewyddu trwyddedau hefyd yn effeithiol.

**3.5.** Ymdrinnir â'r holl incwm a gwariant yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol ac mae'r trefniadau monitro cyllidebau a rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3.6.** Mae gweithdrefnau a ddefnyddir i sicrhau materion diogelu wedi eu hymgorffori yn yr holl weithgarwch trwyddedu perthnasol.

**3.7.** Mae gan y Gwasanaeth gynllun i yrru gwelliant ac mae wedi ystyried y risgiau a fyddai'n cael effaith ar ei allu i gyflawni ei amcanion. Mae Cynllun Gwaith 2017/18 wedi diffinio gofynion perfformiad amlinellol a gosodir targedau penodol i sicrhau y gellir cwrdd â'r amcanion ac i yrru gwelliannau parhaus. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gynllunio hirdymor, gwytnwch cymunedol a chynaliadwyedd yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**3.8.** O ganlyniad, o gofio'r holl ffactorau hyn a mân natur y risgiau a godwyd, gallwn ddarparu 'Sicrwydd Sylweddol' ynghylch materion rheoli a llywodraethu risg a rheolaethau ar gyfer y Gwasanaethau Trwyddedu.

## Y Dreth Gyngor a Threthi Annomestig

| | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd Rhesymol** | **0** | **Catastroffig** |
| | **0** | **Uchel** |
| | **2** | **Cymedrol** |
| | **1** | **Isel** |

**3.9.** Ar gyfer 2016/17, casglodd Cyngor Sir Ynys Môn 97.4% o'r dreth gyngor a godwyd, sy'n cyfateb i'r gyfradd gasglu gyffredinol ar gyfer Cymru gyfan yn ôl ystadegau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Y gyfradd gasglu uchaf ar gyfer Awdurdod yng Nghymru oedd 98.1% a'r isaf oedd 93.8%.

**3.10.** Ffigwr y Cyngor ar gyfer Trethi Annomestig oedd 97.1% o'i gymharu â ffigwr o 97.8% ar gyfer Cymru gyfan. Y gyfradd gasglu uchaf yng Nghymru oedd 99.4% a'r isaf oedd 95%.

**3.11.** Nid oedd ein hadolygiad yn rhoi sylw i reoli mynediad i systemau a darpariaethau wrth gefn, na gweithredu'r 'Premiwm Dreth Gyngor ar Gartrefi sydd wedi bod yn Wag am Dymor Hir ac Ail Gartrefi yng Nghymru'[1] gan y byddant yn cael eu hadolygu ar wahân.

**3.12.** Cadarnhaodd ein hadolygiad bod gwaith atebolrwydd treth a bilio yn cael ei wneud yn unol â pholisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau a hefyd bod y didyniadau, yr eithriadau a'r rhyddhad oll yn briodol.

**3.13.** Fe wnaethom nodi dwy risg gymedrol. Canfuwyd problemau yn y gwaith cysoni ffigyrau ar gyfer yr ailbrisiad a wnaed o eiddo annomestig yn Ebrill 2017; nid oedd swyddogion yn gallu cysoni'r ffigyrau tan ddiwedd mis Awst 2017 ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw adolygiadau wedi eu gwneud o gyfrifon sydd wedi'u hatal – gall hyn arwain at atal cyfrifon am gyfnod hwy nag sy'n briodol. O ganlyniad, efallai na fydd modd cymryd camau adennill effeithiol.

[1] O 1 Ebrill 2017, roedd awdurdodau lleol yn gallu codi premiwm o hyd at 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yn eu hardaloedd. Gwnaed y newidiadau deddfwriaethol yn Neddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r pwerau a roddwyd i awdurdodau lleol yn ddewisol. Penderfyniad i bob awdurdod lleol ei wneud yw p'un a ddylai godi pris premiwm ar gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi (neu'r ddau).

**3.14.** Mae cynlluniau wedi eu gwneud i fynd i'r afael â'r risgiau hyn erbyn Ionawr 2018. Yn ogystal, mae'r Adain yn cael ei hailstrwythuro ar hyn o bryd. Fel rhan o hyn, mae cynlluniau i wella parhad busnes ac i weithredu amgylchedd gwaith electronig. Bwriedir hefyd anfon biliau electronig yn y dyfodol er mwyn lleihau costau postio, er na ddisgwylir y gellir gweithredu hyn mewn da bryd ar gyfer biliau blynyddol 2018.

**3.15.** O ganlyniad, gan ystyried yr holl ffactorau hyn a natur gymedrol y risgiau a godwyd, gallwn ddarparu 'Sicrwydd Rhesymol' ynghylch materion llywodraethu a rheoli risg a rheolaethau ar gyfer y Gwasanaeth Budd-daliadau Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

### Mân-Ddyledwyr

| Sicrwydd Cyfyngedig | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| | 0 | Catastroffig |
| | 7 | Uchel |
| | 9 | Cymedrol |
| | 3 | Isel |

**3.16.** Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu mewn perthynas ag adroddiadau 'Sicrwydd Cyfyngedig', rwyf wedi darparu copi o'r adroddiad llawn i'r aelodau ar wahân.

**3.17.** Mae gwaith ynghylch Mân-Ddyledwyr yn ymwneud â chodi bil am nwyddau a gwasanaethau'r Cyngor a chasglu ac adennill dyledion o'r fath. Amlygodd yr archwiliad nifer o bryderon a oedd, ar y cyd, mor arwyddocaol fel na fyddai'r archwiliad ond yn gallu darparu graddfa Sicrwydd Cyfyngedig.

**3.18.** Mae'r meysydd o bryder yn cynnwys diffyg gwahanu dyletswyddau ac anghysondeb yn y broses ar gyfer gweinyddu dyledion Gofal Cartref. Nid yw dyledion Gofal Cartref wedi'u cynnwys yn y polisi drafft corfforaethol ar gyfer adennill dyledion. Oherwydd natur y cleientiaid, mae'n anodd adennill dyledion Gofal Cartref oherwydd nad oes opsiwn i roi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth oherwydd nad yw'r cleient wedi talu. Mae'n hollbwysig, felly, sefydlu gweithdrefnau adennill ar gyfer dyledwyr Gofal Cartref.

**3.19.** Mae risgiau eraill yn cynnwys oedi wrth awdurdodi cyfrifon dyledwyr yn y system ac wrth godi ac awdurdodi anfonebau dyledwyr. Mae camau adennill anfonebau dyledus yn cael eu hatal heb bolisi ffurfiol ar gyfer gwneud hynny ac nid yw'r cyfrifon sydd wedi eu hatal yn cael eu monitro.

**3.20.** Mae oedi o ran clirio taliadau o'r codau crog ac o'r cyfrif daliannol yn y lejer i'r systemau cyfatebol neu yn erbyn yr anfoneb gywir, a hefyd wrth brosesu nodiadau canslo/credyd a chysoni ffigyrau yn y system gyda'r lejer cyffredinol.

**3.21.** Mae'r aneffeithlonrwydd uchod yn achosi i'r Adain Incwm roi lefel wael o wasanaeth i wasanaethau eraill ac i ddyledwyr. Fodd bynnag, diffyg adnoddau yw achos y rhan fwyaf o'r problemau a godir yn yr adroddiad. Felly, gan fod yr Adain Incwm wedi creu swydd reoli newydd yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r materion hyn ac wrthi'n cryfhau'r Tîm Incwm a'r Tîm Adennill, mae'r gwasanaeth yn hyderus y bydd y sefyllfa'n gwella dros y chwe mis nesaf. Mae'r Rheolwr Refeniw wedi rhoi sicrwydd bod prosesau ar waith i wella'r sefyllfa sydd ohoni ac mae'r rhain wedi'u hamlygu o fewn cynllun gweithredu.

**3.22**.Cynhelir archwiliad dilyn-i-fyny a chyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor hwn i roi sicrwydd i'r aelodau bod y risgiau a nodwyd gan yr archwiliad yn cael sylw.

## 4. Gwaith dilyn-i-fyny o adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol

**4.1**. Ar hyn o bryd, rydym yn gwneud gwaith dilyn-i-fyny ar bob adroddiad sicrwydd 'Cyfyngedig' neu is. Mae gwaith dilyn-i-fyny yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar bum adroddiad 'Sicrwydd Cyfyngedig':-

- Gorchmynion Llys Gofal Plant dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus;
- Tai Gofal Ychwanegol - Trefniadau Comisiynu;
- Rheolaethau System - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau;
- Safonau Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu;
- Fframwaith Caffael Corfforaethol.

**4.2.** Mae anawsterau o ran cael mynediad i staff ac oedi wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth wedi golygu na fu modd cwblhau'r adroddiadau penodol hyn mewn da bryd ar gyfer yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rhoddir adroddiad llafar lle bo'n briodol.

**4.3.** Rydym wedi cwblhau un adolygiad yn y cyfnod. Er mai graddfa 'Sicrwydd Rhesymol' a gafodd yr adroddiad ac er y byddai hynny, fel arfer, yn golygu na chynhelir archwiliad dilyn-i-fyny ffurfiol, ni wnaed unrhyw gynnydd gyda gweithredu'r camau rheoli a argymhellwyd yn ein hymweliad dilyn-i-fyny cyntaf.

### Ffioedd Rheoliadau Adeiladu - Cyfundrefnau Arolygu a Gorfodi – Ail Ymweliad dilyn-i-fyny

| | | Materion / Risgiau Gwreiddiol | Materion / Risgiau Dilynol |
|---|---|---|---|
| Cynnydd Da | Dyddiad yr Adroddiad | Ebrill 2016 | Hydref 2017 |
| | Sicrwydd | Rhesymol | Rhesymol |
| | Catastroffig | 0 | 0 |
| | Uchel | 1 | 0 |
| | Cymedrol | 2 | 3 |
| | Isel | 1 | 1 |

**4.4.** Cadarnhaodd ein hail adolygiad dilyn-i-fyny, mewn perthynas â'r pedair risg a godwyd, fod camau wedi eu gweithredu'n rhannol i fynd i'r afael â phob risg. Ailaseswyd y graddfeydd blaenoriaeth i gymryd i ystyriaeth y camau a gymerwyd hyd yn hyn.


**4.5.** Mae'r tîm Rheoli Adeiladu wedi dangos **'cynnydd da'** wrth weithredu'r camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd. Nid yw'r raddfa wedi newid ar gyfer y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaethau mewnol, sef 'Sicrwydd Rhesymol'.

## 5. Gweithredu Camau Rheoli

**5.1.** Fel rhan o'r dull archwilio mewnol newydd, nid ydym bellach yn gwneud argymhellion ac, yn hytrach, 'rydym yn codi 'Materion' a 'Risgiau'.

**5.2.** Er mwyn annog rheolwyr i gymryd perchnogaeth o'r risgiau, rydym yn rhoi'r cyfrifoldeb arnynt hwy i ddatblygu'r camau i fynd i'r afael â'r materion / risgiau yr ydym wedi eu hamlygu.

**5.3**. Fel y gellir rhoi gwybodaeth am dueddiadau i'r Pwyllgor, mae'r graff isod yn amlygu'r perfformiad o ran gweithredu'r argymhellion / mynd i'r afael â'r risgiau:-




| | Ch3 2016/17 | Ch4 2016/17 | Ch1 2017/18 | Ch2 2017/18 | i 31/10 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Uchel Coch Ambr | 81% | 81% | 80% | 87% | 86% |
| Canolig Melyn | 82% | 88% | 87% | 93% | 91% |
| Isel Gwyrdd | 66% | 80% | 80% | 84% | 84% |

**5.4.** Fel y gwelir, mae'r Cyngor wedi gwella ei berfformiad yn raddol yn ystod y 12 mis diwethaf, er bod perfformiad wedi dirywio rhyw ychydig dros y mis diwethaf.

**5.5.** Cyflwynir adroddiad manylach ddwywaith y flwyddyn ar yr holl argymhellion sydd angen sylw a Materion / Risgiau.

## 6. Cynnydd o ran cyflawni Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18

**6.1.** Mae'r Cynllun Blynyddol wedi ei atodi yn Atodiad A . Hyd yn hyn, rydym wedi cwblhau 41% o'r cynllun ac yn gweithio ar hyn o bryd ar 31% arall.

**6.2.** Wedi i’r Pennaeth Archwilio a Risg ddechrau yn y swydd ym mis Ebrill 2017, mae gwaith wedi bod yn cael ei wneud i adolygu a moderneiddio'r dull archwilio mewnol, gan gynnwys ymarfer *Meddwl Trwy Systemau* i nodi aneffeithlonrwydd a gwella'r broses a'r gweithdrefnau adrodd. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

**6.3.** Yn ogystal, oherwydd llithriad gwaith sylweddol o 2016/17, ymddeoliad y Swyddog Twyll Corfforaethol ac absenoldeb hirdymor Uwch Archwilydd, mae'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2017/18 wedi gostwng.

**6.4.** O ganlyniad, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cynnal asesiad risg gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Blaenoriaethwyd adolygiadau archwilio i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu i'r ardaloedd lle mae'r risg uchaf.

## 7. Y diweddariadau y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

**7.1.** Yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2017, gofynnodd y Pwyllgor i'r Pennaeth Archwilio a Risg ddiweddaru'r Flaenraglen Waith gyda Mr Gwilym Bury, Archwiliwr Perfformiad Arweiniol Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn rhoi diweddariad i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr ar Raglen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Gwaith Perfformiad.

## 8. Materion Eraill

### Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

**8.1.** O bryd i'w gilydd, dylai'r Pwyllgor adolygu ei gylch gorchwyl i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol. Y tro diwethaf iddo adolygu a chymeradwyo ei gylch gorchwyl oedd ym mis Chwefror 2015 ac fe’i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill a'r Cyngor Sir ym mis Mai 2015.

**8.2.** Yn unol â Blaenraglen Waith y Pwyllgor, roedd eitem ar y cylch gorchwyl wedi ei rhaglennu i gael sylw yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi. Fodd bynnag, yn y cyfarfod hwn, cymeradwyodd y Pwyllgor y dylid gohirio adolygu’r cylch gorchwyl tan gyfarfod mis Rhagfyr y Pwyllgor, ar ôl i CIPFA gyhoeddi'r canllawiau newydd. Rhagwelwyd y byddai’n digwydd ym mis Tachwedd 2017.

**8.3.** Fodd bynnag, mae CIPFA bellach wedi cadarnhau y bydd yn awr yn cyhoeddi'r canllawiau newydd ym mis Rhagfyr 2017.Felly, bwriedir gohirio adolygu’r cylch gorchwyl tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2018.

**8.4.** Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r bwriad i ohirio.

**Atodiad A**

## Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2017/18

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am ddiwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ADOLYGIADAU AWDURDOD GYFAN (CORFFORAETHOL)** | | | | | | | | | | |
| **1** | Corfforaethol | Gwariant Cyfalaf | AM Cylchol | Drafft | *Rhagfyr 2017* | | 15 | 15 | 14 | |
| **2** | Corfforaethol | Fframwaith Caffael Corfforaethol | Risg a Aseswyd gan AM | Wedi'i gwblhau | Medi 2017 | Cyfyngedig | 10 | 6 | 6 | |
| **3** | Corfforaethol | Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth – Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol – Parodrwydd | Risg Gorfforaethol YM13 Adroddiad ICO | Drafft | *Chwefror 2018* | | 15 | 15 | 6 | |
| **4** | Corfforaethol | Adfer TGCh ar ôl Trychineb | Risg Gorfforaethol YM10 | Wedi'i gwblhau | Medi 2017 | Sylweddol | 10 | 6 | 6 | |
| **5** | Corfforaethol | Rheoli Risg | AM Cylchol | Wedi ei ddileu | d/b | d/b | 10 | 0 | 0 | Cynhaliwyd trosolwg yn 2017 gyda'r Rheolwr Yswiriant a Risg, yr UDA a'r Penaethiaid. Adolygiad yn 2018/19 |
| **6** | Corfforaethol | Diogelu Corfforaethol | Risg Gorfforaethol YM12 | Wedi'i gwblhau | Gorffennaf 2017 | Rhesymol | 20 | 20 | 20 | |
| **7** | Corfforaethol | Rhaglen Drawsnewid – Gweithio'n Gallach | Ar gais y Swyddog Adran 151 | | | | 15 | 15 | 0 | |
| **8** | Corfforaethol | Diwylliant Foesegol | Gofyniad PSIAS | Wedi'i gwblhau | Medi 2017 | Rhesymol | 20 | 16 | 16 | |

Tudalen 22

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am ddiwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **9** | Corfforaethol | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – rhan o ofynion Rhan 9 | Deddfwriaeth Newydd | Sgopio | *d/b* | | 20 | 3 | 0.75 | Estyniad gan LlC i weithredu cyllidebau a rennir. Felly cadw golwg yn unig gyda'r nod o gynnal archwiliad yn 2018/19. |
| **10** | Corfforaethol | Rheoli Rhaglenni / Prosiectau | Ar gais y PW – un o amcanion yr UDA | Gwaith Maes | *Chwefror 2018* | | 15 | 15 | 1.75 | |
| **11** | Corfforaethol | Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | Pryder Archwilio | Sgopio | *Chwefror 2018* | | 15 | 15 | 1 | |
| **PENNAETH SWYDDOGAETH ADNODDAU A'R SWYDDOG ADRAN 151** | | | | | | | | | | |
| **12** | Adnoddau | Y Dreth Gyngor a Threthi Annomestig | System Ariannol Allweddol | Wedi'i gwblhau | Rhagfyr 2017 | Rhesymol | 20 | 20 | 19 | |
| **13** | Adnoddau | Coferstr o Asedau Sefydlog a Chyfrifo Cyfalaf | System Ariannol Allweddol | Wedi'i ddileu | d/b | d/b | 10 | 0 | 0 | Gwaith wedi cael ei wneud gan archwilwyr allanol. Rhywfaint o or-gyffwrdd gyda'r archwiliad ar Wariant Cyfalaf. Yr archwiliad wedi'i ddileu. |
| **14** | Adnoddau | Rheoliadau Lefel Uchel ar gyfer Systemau Ariannol Allweddol | System Ariannol Allweddol | d/b | | d/b | 10 | 0 | 0 | Y diwrnodau wedi cael eu trosglwyddo i Mân-ddyledwyr oherwydd y problemau a nodwyd. Mae systemau ariannol allweddol wedi cael sylw unigol ar wahân i Reoli Trysorlys, sydd wedi bod yn wyrdd am nifer o flynyddoedd. |

Tudalen 24

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am ddiwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **15** | Adnoddau | Budd-daliadau Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | System Ariannol Allweddol | Wedi'i gwblhau | Medi 2017 | Rhesymol | 15 | 23 | 23 | Dyddiau dros ben wedi eu trosglwyddo o'r ddarpariaeth wrth gefn. |
| **16** | Adnoddau | Prif System Gyfrifo | System Ariannol Allweddol | Wedi'i gwblhau | Mehefin 2017 | Rhesymol | 10 | 7 | 7 | |
| **17** | Adnoddau | Incwm – Safon Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu | System Ariannol Allweddol | Gwaith Maes | *Chwefror 2018* | | 15 | 15 | 7 | |
| **18** | Adnoddau | Arian Mân / Cyfrifon Imprest | System Ariannol Allweddol | | | | 10 | 10 | 0 | |
| **19** | Adnoddau | Mân-Ddyledwyr | System Ariannol Allweddol | Wedi'i gwblhau | Rhagfyr 2017 | Cyfyngedig | 10 | 27 | 26.5 | Diwrnodau a drosglwyddwyd o'r Systemau Ariannol Allweddol a'r ddarpariaeth wrth gefn oherwydd problemau a nodwyd. |
| **PENNAETH SWYDDOGAETH – BUSNES Y CYNGOR A'R SWYDDOG MONITRO** | | | | | | | | | | |
| **20** | Busnes | Gwasanaethau Democratig ac Aelodau – Lwfansau Aelodau | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Wedi ei ddileu | d/b | d/b | 8 | 0 | 0 | Trafodwyd gyda'r Swyddog Monitro – dim yn risg. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r archwiliad Parodrwydd GDPR. |
| **21** | Busnes | Gwasanaethau Cyfreithiol | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Wedi ei ddileu | d/b | d/b | 6 | 0 | 0 | Trafodwyd y Gofrestr Risg gyda'r Swyddog Monitro –yr holl gamau gweithredu ar y trywydd iawn. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r archwiliad Parodrwydd GDPR. |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am ddiwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PENNAETH SWYDDOGAETH – TRAWSNEWID** | | | | | | | | | | |
| **22** | Trawsnewid | Canolfannau Data | Yn sylfaenol i weithrediad y Cyngor | Wedi ei ddileu | d/b | d/b | 10 | 0 | 0 | Wedi ei ohirio tan 2018/19. Cynllunio ar gyfer digwyddiadau annisgwyl wedi derbyn sylw yn yr archwiliad Adfer TGCh yn dilyn Trychineb. |
| **23** | Trawsnewid | Cyfeirlyfr Gweithredol | Yn sylfaenol i weithrediad y Cyngor | Wedi ei ddileu | d/b | d/b | 15 | 0 | 0 | Wedi ei ohirio tan 2018/19. Dim yn flaenoriaeth. |
| **24** | Trawsnewid | Archwiliad Diogelwch y Rhwydwaith (Diogelwch Seiber) | Yn sylfaenol i weithrediad y Cyngor | | | | 15 | 15 | 0 | |
| **PENNAETH RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | | | | | | | | | | |
| **25** | Datblygu Economaidd | Swyddogaeth Datblygu Economaidd | Dogfen Gyflawni Flynyddol 2016/17 | Wedi ei ddileu | d/b | d/b | 15 | 0 | 0 | Dim yn flaenoriaeth uchel i'r Pennaeth Gwasanaeth a ddim ar y gofrestr risg. Archwiliad wedi'i ddileu. |
| **26** | Hamdden | Swyddogaeth Hamdden a Pherfformiad | Dogfen Gyflawni Flynyddol 2016/17 – Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | | | | 15 | 15 | 0 | |
| **27** | Cynllunio | Tîm Strategaeth a Chefnogaeth | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | Wedi ei ddileu | d/b | d/b | 10 | 0 | 0 | Dim yn flaenoriaeth uchel i'r Pennaeth Gwasanaeth a ddim ar y gofrestr risg. Archwiliad wedi'i ddileu |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am ddiwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **28** | Safonau Masnach | Cofrestriad Sifil | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Wedi'i gwblhau | Medi 2017 | Sylweddol | 10 | 10 | 10 | |
| **29** | Rheoleiddio | Gwasanaethau Trwyddedu | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Wedi'i gwblhau | Rhagfyr 2017 | Sylweddol | 10 | 17 | 17 | Diwrnodau dros ben wedi eu trosglwyddo o'r ddarpariaeth wrth gefn. Ddim wedi cael ei archwilio o'r blaen ac angen rhoi sylw i gryn dipyn o ddeddfwriaeth. |
| **PENNAETH PRIFFYRDD, GWASTRAFF A GWASANAETHAU EIDDO** | | | | | | | | | | |
| **30** | Priffyrdd | Gwasanaethau Meysydd Parcio a Gorfodaeth | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Wedi ei ddileu | d/b | d/b | 15 | 0 | 0 | Cynllun peilot wedi ei sefydlu gyda sefydliad allanol ar gyfer gorfodaeth parcio. Gohirio'r archwiliad tan 2018/19 er mwyn rhoi amser i'r cynllun peilot gynhyrchu canlyniadau. Mae contract ar wahân ar gyfer gweithgareddau gorfodaeth eraill (baw cŵn a sbwriel). Symud yr archwiliad i 2018/19. |
| **31** | Priffyrdd | Gwasanaethau Peirianneg a Dylunio | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Wedi ei ddileu | d/b | d/b | 15 | 0 | 0 | Gwasanaeth yn cael ei leihau a ddim yn faes blaenoriaeth uchel i'r Pennaeth Gwasanaeth. Dim ar y gofrestr risg. |
| **32** | Eiddo | Rheoli Stadau ac Eiddo | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | | | | 15 | 15 | 0 | |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am ddiwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **33** | Priffyrdd | Priffyrdd a Pheirianneg Sifil | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | | | | 15 | 15 | 0 | |
| **PENNAETH TAI** | | | | | | | | | | |
| **34** | Tai | Rhenti Tai – Parodrwydd ar gyfer Diwygio Lles (Credyd Cynhwysol) | System Ariannol Allweddol | Sgopio | *Chwefror 2018* | | 15 | 17 | 11.25 | |
| **35** | Tai | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi a'r Cynllun Benthyciadau Pontio | Cynllun Busnes Corfforaethol | Sgopio | *Chwefror 2018* | | 15 | 15 | 4 | |
| **36** | Tai | Rhaglen Cefnogi Pobl | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Sgopio | *Chwefror 2018* | | 15 | 15 | 3.25 | |
| **PENNAETH GWASANAETHAU OEDOLION** | | | | | | | | | | |
| **37** | Oedolion | Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLs) | Risg Ymgyfreithiad mewn perthynas â'r Asesiadau DoLs sy'n parhau i fod angen sylw | Sgopio | | | 15 | 15 | 0.25 | |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am ddiwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **38** | Oedolion | Taliadau Uniongyrchol | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | | | | 0 | 15 | 0 | Pennaeth Gwasanaeth yn pryderu ynghylch llywodraethu a rheoli gwariant. Maes blaenoriaeth. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo o'r Archwiliad Darparu a Rheoli Gwasanaethau ar y Cyd. |
| **39** | Oedolion | Darparu a Rheoli Gwasanaethau ar y Cyd mewn perthynas â gwasanaethau i bobl hŷn gyda'r Bwrdd Iechyd | Dogfen gyflawni flynyddol 2016/17 | Wedi ei ddileu | d/b | d/b | 15 | 0 | 0 | Dim yn flaenoriaeth i'r Pennaeth Gwasanaeth a ddim ar y gofrestr risg. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r Archwiliad Taliadau Uniongyrchol. |
| **40** | Oedolion | Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed – Contractau Gofal Cartref | Dogfen Gyflawni Flynyddol 2016/17 | Wedi ei ddileu | d/b | d/b | 15 | 0 | 0 | Dim yn flaenoriaeth uchel i'r Pennaeth Gwasanaeth a ddim ar y gofrestr risg. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r ddarpariaeth wrth gefn. |
| **PENNAETH GWASANAETHAU PLANT** | | | | | | | | | | |
| **41** | Plant | Strategaeth Rhiantu Corfforaethol – Plant mewn Gofal – Buddsoddi i Arbed - Maethu | Sicrwydd Allanol | | | | 15 | 10 | 0 | |
| **PENNAETH GWASANAETH DYSGU** | | | | | | | | | | |
| **42** | Dysgu | Ysgolion Uwchradd – Cyllid ar gyfer y 6ed Dosbarth - Ysgol Syr Thomas Jones | Adolygiad cylchol | Wedi ei ddileu | d/b | d/b | 10 | 0 | 0 | Dim yn faes risg uchel. Archwiliad wedi ei ddileu. |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am ddiwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **43** | Dysgu | Ysgolion Cynradd – Adolygiadau Thematig – Casglu Incwm mewn Ysgolion | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | | | | 20 | 20 | 0 | |
| **44** | Dysgu | Absenoldeb Salwch mewn Ysgolion | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | | | | 20 | 0 | 0 | |
| **45** | Dysgu | Cludiant Ysgol | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | Wedi'i gwblhau | Medi 2017 | Cyfyngedig | 20 | 26 | 26 | Diwrnodau ychwanegol wedi eu trosglwyddo o'r ddarpariaeth wrth gefn. Nodwyd problemau sylweddol. |
| **DYDDIAU HEB EU RHAGLENNU Y GELLIR CODI AMDANYNT (CYNHYRCHIOL)** | | | | | | | | | | |
| | | Gwaith dilyn i fyny | | | | | 35 | 70 | 56.75 | Nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig. Gwaith sylweddol yn cael ei wneud i glirio hen argymhellion sy'n sefyll, yn arbennig yn yr ysgolion. |
| | | Gwaith Atal Twyll Cyffredinol, Menter Dwyll Genedlaethol, cyfeiriadau ac ymholiadau. | | | | | 155 | 80 | 77 | Nifer y dyddiau wedi eu gostwng oherwydd gwneud i ffwrdd â swydd y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol. |
| | | **Cyfeiriadau :** | | | | | | | | |
| **46** | Cyfeiriad | Adroddiad AGGCC – Llywodraethiant mewn perthynas â'r Cynlluniau Gweithredu | Cais gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Wedi'i gwblhau | Mehefin 2017 | d/b | 0 | 2 | 2 | |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am ddiwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **47** | Cyfeiriad | Gor-daliad Cyflogres | Cais gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg | Gwaith Maes | *Chwefror 2018* | | 0 | 5 | 4 | |
| **48** | Cyfeiriad | Cofrestru Taliadau Ariannol | Cais gan y Swyddog Adran 151 | Gwaith Maes | *Chwefror 2018* | | 0 | 10 | 4.5 | |
| **49** | Cyfeiriad | Clwb ar ôl Ysgol – Anghysonderau Cyllid | Cais gan y Gwasanaethau Dysgu | Drafft | *Chwefror 2018* | | 0 | 15 | 13 | |
| | | Cau Gwaith y Flwyddyn Flaenorol | | | | | 20 | 20 | 20 | |
| | | **Ardystiad Grant:** | | | | | 35 | 0 | 0 | |
| **50** | Grant | Grant Gwisg Ysgol | Cais gan yr Adain Gyfrifeg | Wedi'i gwblhau | Rhagfyr 2017 | Sylweddol | 0 | 3 | 3 | |
| **51** | Grant | Rent Smart Wales Grant | Cais gan yr Adain Gyfrifeg | Wedi'i gwblhau | Gorffennaf 2017 | Sylweddol | 0 | 10 | 10 | |
| **52** | Grant | Grant Gwella Addysg | Cais gan yr Adain Gyfrifeg | Wedi'i gwblhau | Gorffennaf 2017 | Sylweddol | 0 | 3 | 3 | |
| **53** | Grant | Grant Datblygu Disgyblion | Cais gan yr Adain Gyfrifeg | Wedi'i gwblhau | Gorffennaf 2017 | Sylweddol | 0 | 6 | 6 | |
| | | Ymgynghoriaeth Gorfforaethol | | | | | 55 | 35 | 28 | |
| | | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer aelodau | | | | | 23 | 40 | 35.75 | |
| | | Adolygiad Rheoli | | | | | 0 | 40 | 29.5 | Dyddiau wedi eu trosglwyddo o Rheoli |
| | | Digwyddiadau Annisgwyl | | | | | 120 | 3 | 0 | |
| | | **CYFANSWM** | | | | **70%** | **1057** | **790** | **518.25** | |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am ddiwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DYDDIAU NAD OES MODD CODI AMDANYNT (DIM YN GYNHYRCHIOL)** | | | | | | | | | | |
| | | Risg ac Yswiriant | | | | | 50 | 50 | 7.5 | |
| | | Gweinyddiaeth Gyffredinol | | | | | 70 | 60 | 51.75 | |
| | | Datblygiad ac Adolygiad Personol, Cyfarfodydd 1:1 a Chyfarfodydd Tîm | | | | | 8 | 25 | 17 | Dim digon o ddiwrnodau wedi eu neilltuo. |
| | | Rheoli, gan gynnwys ymgynghori gydag Archwilwyr Allanol a pharatoi'r cynllun archwilio | | | | | 75 | 35 | 29.25 | Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r Adolygiad Rheoli. |
| | | Gwyliau Blynyddol (164), gan gynnwys absenoldeb statudol (41) ac absenoldeb arbennig (90) | | | | | 245 | 295 | 224.75 | Nifer y dyddiau wedi eu diwygio oherwydd ymddeoliad y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol ac absenoldeb arbennig ac ymddiswyddiad yr Uwch Archwiliwr. |
| | | Absenoldeb Salwch | | | | | 45 | 10 | 9 | Record salwch y tîm yn dda – y diwrnodau wedi eu trosglwyddo i hyfforddiant. |
| | | Hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff, gan gynnwys sesiynau cynefino a gwersi Cymraeg | | | | | 10 | 65 | 60.25 | Dim digon o ddiwrnodau wedi eu neilltuo- trosglwyddwyd dyddiau o'r gyfran a neilltuwyd ar gyfer salwch a digwyddiadau annisgwyl |
| | | **CYFANSWM** | | | | | **503** | **540** | **399.5** | |
| | | | | | | | **1560** | **1330** | **917.75** | |

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

| | |
|---|---|
| **Reference** | IH16-17 |
| **Date** | 28 November 2017 |
| **Pages** | **1** of **3** |

Dr Gwynne Jones
Cynghorydd Llinos Medi
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni

Annwyl Gwynne a Ieuan

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Ynys Môn 2016-17**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;

- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 29 Medi 2017, cyhoeddodd yr Archwilydd

Cyffredinol Cymru (Archwyilydd Cyffredinol) farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon (ar gyfer y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn) i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn yr adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 21 Medi 2017. Nid oes angen i'r Archwilydd Cyffredinol ddwyn unrhyw beth at eich sylw yn y llythyr hwn.

Mae'n werth nodi hefyd fod y Cyngor wedi arwain y gwaith o baratoi cyfrifon y Cyd-bwyllgor GwE Cyd-Bwyllgor a'i fod hefyd wedi paratoi Ffurflenni Blynyddol ar gyfer Harbyrau Gwynedd, y Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a'r Cyd-bwyllgor Cynllunio Polisi ar y Cyd. Ar 29 Medi 2017:

- Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar gyfrifon GwE gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Pwyllgor.
- Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y wybodaeth yn y ffurflenni blynyddol ar gyfer Harbyrau Gwynedd, y Cyd-bwyllgor AAA a'r Cyd-bwyllgor Cynllunio Polisi ar y Cyd yn unol ag arferion priodol.

Hysbyswyd y pwyllgorau perthnasol am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliadau hyn lle roedd yn briodol gwneud hynny. Unwaith eto, nid oes angen i'r Archwilydd Cyffredinol ddwyn unrhyw beth at eich sylw yn y llythyr hwn.

**Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.**

Mae ystyriaeth yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella

o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

**Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau ar 29 Medi 2017.**

**Hyd yma, mae fy ngwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ar ardystio hawliadau a ffurflenni grantiau ddim wedi nodi unrhyw faterion arwyddocaol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2017-18 na systemau ariannol allweddol.**

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2016-17 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yng Nghynllun Archwilio.

Yn gywir



**Ian Howse**

**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | ICH201617 |
| **Dyddiad** | 28/11/2017 |
| **Tudalennau** | **1** of **1** |

Annwyl Cyngor Sir Ynys Mon,

**Archwiliad o Gyfrifon 2016/2017**
**Hysbysiad o Ardystio Cwblhau'r Archwiliad**

Mae'n bleser gennyf eich hysbysu fod yr archwiliad o gyfrifon eich Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 wedi cael ei gwblhau. Nid wyf wedi cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd yn ôl Adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fe hoffwn dynnu eich sylw at:

- Reoliad 13 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n ei wneud yn ofynnol i'r Awdurdod i wneud datganiad drwy hysbyseb ac ar eu wefan fod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau â fod datganiad y cyfrifon ar gael i gael ei arolygu gan etholwyr y llywodraeth leol; a
- Reoliad 27 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n ei wneud hi'n ofynnol i gyrff sy'n cael eu archwilio i gyhoeddu'r Llythr Archwilio Blynyddol cyn gynted ag sy'n resymol bosibl ar ôl ei dderbyn. Dylid cadw copïau o'r llythr fel y gellir eu prynnu am swm rhesymol gan unrhyw berson.

Yn gywir

AJ Barrett

Anthony Barrett,

Ar ran yr Archwilydd Cyffreddinol Cymru

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ADRODDIAD I: | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD: | 5 RHAGFYR 2017 |
| PWNC: | RHEOLI'R TRYSORLYS – ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN 2017-18 |
| AELOD(AU) PORTFFOLIO: | Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH |
| PENNAETH GWASANAETH: | MARC JONES<br>(Est 2601) |
| AWDUR YR ADRODDIAD:<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | GARETH ROBERTS<br>01248 752675<br>GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk |
| AELODAU LLEOL: | D/b |

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r Cyngor yn gweithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n fras bod arian a godir yn ystod y flwyddyn yn ddigon i dalu am ei wariant. Mae rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yn sicrhau bod y llif arian hwn yn cael ei gynllunio'n ddigonol, gydag arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn gwrth-bartïon risg isel, gan ddarparu hylifedd digonol yn y lle cyntaf cyn ystyried sicrhau'r elw mwyaf posib o'r buddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli'r trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn rhoi syniad o faint y bydd angen i'r Cyngor gael benthyg, sef, yn y bôn, y cynllunio llif arian tymor hirach i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r llif arian yn y tymor hirach gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio gwargedau llif arian tymor hwy, ac ar adegau gellir ailstrwythuro unrhyw ddyledion i gwrdd ag amcanion risg neu amcanion cost y Cyngor.

Yn unol â hynny, diffinnir rheoli trysorlys fel:-

*"Rheoli buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drefniadau bancio a thrafodion ar y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny."*

## 2. Cefndir

Mae prif ofynion y Côd fel a ganlyn:-

**1.** Creu a chynnal Datganiad ar y Polisi Rheoli'r Trysorlys sy'n nodi polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor.

**2.** Creu a chynnal Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n nodi sut bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny.

**3.** Y Cyngor llawn yn derbyn Datganiad Blynyddol ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer y flwyddyn i ddod, Adroddiad Adolygu Canol Blwyddyn (yr adroddiad hwn) ac Adroddiad Blynyddol, sy'n rhoi sylw i weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**4.** Y Cyngor llawn yn dirprwyo cyfrifoldebau am weithredu a monitro'r polisïau ac arferion rheoli'r trysorlys ac am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys.

**5.** Y Cyngor yn dirprwyo'r gwaith o archwilio'r strategaeth a'r polisïau rheoli'r trysorlys i gorff penodol, sef y Pwyllgor Archwilio yn achos y Cyngor hwn.

Paratowyd yr adroddiad canol blwyddyn hwn yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Diweddariad economaidd ar gyfer rhan gyntaf blwyddyn ariannol 2017/18;
- Adolygiad o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol
- Gwariant cyfalaf y Cyngor (dangosyddion darbodus);
- Adolygiad o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2017/18;
- Adolygiad o strategaeth fenthyca'r Cyngor ar gyfer 2017/18;
- Adolygiad o unrhyw aildrefnu dyledion yn ystod 2017/18;

- Crynodeb o weithgaredd ers Chwarter 2;
- Edrych ymlaen i'r flwyddyn nesaf; ac
- Adolygiad o gydymffurfiaeth gyda Therfynau Trysorlys a Darbodus ar gyfer 2017/18.

## 3 Diweddariad Economaidd

**3.1** Cafwyd diweddariad economaidd gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn fuan ar ôl diwedd y chwarter cyntaf, ac fe'i gwelir yn Atodiad 1 .Yn ddiweddar, maent hefyd wedi darparu'r rhagolwg cyfradd llog canlynol: -

| | Rhagfyr 2017 | Mawrth 2018 | Mehefin 2018 | Medi 2018 | Rhagfyr 2018 | Mawrth 2019 | Mehefin 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Banc (%) | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 |
| Cyfradd BBGC 5 mlynedd (%) | 1.50 | 1.60 | 1.70 | 1.70 | 1.80 | 1.80 | 1.90 |
| Cyfradd BBGC 10 mlynedd (%) | 2.20 | 2.30 | 2.30 | 2.40 | 2.40 | 2.50 | 2.50 |
| Cyfradd BBGC 25 mlynedd (%) | 2.90 | 2.90 | 3.00 | 3.00 | 3.10 | 3.10 | 3.20 |
| Cyfradd BBGC 50 mlynedd (%) | 2.70 | 2.70 | 2.80 | 2.80 | 2.90 | 2.90 | 3.00 |

**3.2** Yn ddiweddar, mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor wedi darparu sylwadau ochr yn ochr â'r rhagolygon cyfradd llog uchod. Mae'r sylwadau i'w gweld yn Atodiad 2.

**3.3** Mae'r incwm buddsoddi a ragwelir ar hyn o bryd yn unol â'r gyllideb ar gyfer 2017/18.

## 4 Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Diweddariad ar y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

**4.1** Cymeradwywyd y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2017/18 gan y Cyngor hwn ar 28 Chwefror 2017. Nid oes unrhyw newidiadau polisi i'r DSRHT; mae'r manylion yn yr adroddiad hwn yn diweddaru'r sefyllfa yn wyneb y sefyllfa economaidd ddiweddaraf a'r newidiadau cyllidebol a gymeradwywyd eisoes.

## 5. Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor (Dangosyddion Darbodus)

**5.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad wedi'i strwythuro i roi diweddariad ar:-

- Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor;
- Sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hariannu;
- Effaith y newidiadau yn y cynlluniau gwariant cyfalaf ar y dangosyddion darbodus a'r angen sylfaenol i fenthyca; a
- Cydymffurfiaeth â'r terfynau sydd mewn grym ar gyfer gweithgarwch benthyca.

### 5.2 Dangosydd Darbodus ar gyfer Gwariant Cyfalaf

Mae'r tabl hwn yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o gymharu â'r gyllideb gyfalaf.

| Gwariant Cyfalaf | Amcangyfrif Gwreiddiol 2017/18 £'000 | Sefyllfa ar 30 Medi 2017 £'000 | Amcangyfrif Cyfredol 2017/18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor | 38,510 | 7,430 | 22,020 |
| CRT | 12,870 | 4,220 | 11,490 |
| Cyfanswm | 51,380 | 11,650 | 33,510 |

**5.2.1** Mae'r amcangyfrif cyfredol ar gyfer gwariant cyfalaf y tu ôl i'r amcangyfrif gwreiddiol, a hynny'n bennaf oherwydd oedi gyda'r Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa tan y flwyddyn ariannol nesaf ac oherwydd bod Cynllun Isadeiledd Strategol Caergybi yn dal i ddisgwyl cyllid gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac am na ragwelir y bydd unrhyw wariant cyfalaf sylweddol yn y flwyddyn ariannol hon. Darperir dadansoddiad llawn o'r gwariant cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 yn yr Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf, a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Tachwedd 2017.

### 5.3 Newidiadau i Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf

**5.3.1** Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i ariannu'r rhaglen gyfalaf i'w hadrodd arnynt ar hyn o bryd.

**5.3.2** Mae'r tabl isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategaeth y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan amlygu trefniadau ariannu gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau ariannu disgwyliedig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthyca'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei ostwng yn rhannol gan gostau refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled (y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw). Efallai yr ychwanegir at yr angen hwn i gael benthyg yn sgil dyled sy'n aeddfedu a gofynion trysorlys eraill.

| **Cyllido Cyfalaf** | **2017/18 Amcangyfrif Gwreiddiol £'000** | **2017/18 Amcangyfrif Diwygiedig £'000** |
|---|---:|---:|
| Grantiau Cyfalaf | 23,610 | 11,360 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 2,870 | 3,100 |
| O'r Arian Wrth Gefn | 750 | 460 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,210 | 8,920 |
| Benthyca â Chymorth | 3,510 | 2,090 |
| Benthyca Heb Gymorth | 8,870 | 6,580 |
| Benthyciad | 1,000 | 1,000 |
| Tanwariant o 2016/17 | 560 | 0 |
| **Cyfanswm** | **51,380** | **33,510** |

**5.4. Newidiadau i'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), y Ddyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol.**

**5.4.1** Mae'r tabl isod y dangos y GCC, sef yr angen allanol sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf. Mae hefyd yn dangos y sefyllfa ddyled a ddisgwylir dros y cyfnod. Gelwir hyn y Terfyn Gweithredol.

**5.4.2 Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf**

**5.4.2.1** Rydym ar hyn o bryd ychydig yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelwyd yn wreiddiol oherwydd y tanwariant a ragwelir ar Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, sy'n golygu y bydd llai o fenthyca yn 2017/18.

**5.4.3 Dangosydd Darbodus – Dyled Allanol / y Terfyn Gweithredol**

| | **Amcangyfrif Gwreiddiol 2017/18 £000** | **Amcangyfrif Diwygiedig 2017/18 £000** |
|---|---:|---:|
| ***Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf*** | | |
| GCC – Cronfa'r Cyngor | 100,080 | 96,370 |
| GCC – CRT | 41,650 | 41,650 |
| Cyfanswm GCC | 141,730 | 138,060 |
| Symudiad net yn y GCC | 7,720 | 4,010 |

| | **Amcangyfrif Gwreiddiol 2017/18 £000** | **Amcangyfrif o'r Sefyllfa Fenthyca 2017/18 £000** | **Swm o fewn Y Ffin £000** |
|---|---:|---:|---:|
| ***Dangosydd Darbodus – Dyled Allanol / y Terfyn Gweithredol*** | | | |
| Benthyca | 162,000 | 118,010 | 43,990 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 3,000 | Dim | 3,000 |
| Cyfanswm y ddyled ar 31 Mawrth | 165,000 | 118,010 | 46,990 |

**5.5 Cyfyngiadau ar Weithgareddau Benthyca**

**5.5.1** Y dull rheoli allweddol cyntaf ar gyfer gweithgareddau trysorlys yw dangosydd darbodus i sicrhau, dros y tymor canol, na fydd benthyca net (benthyciadau llai buddsoddiadau) ond yn cael ei wneud at ddibenion cyfalaf. Ni ddylai benthyciadau allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag unrhyw GCC ychwanegol yr

amcangyfrifir y bydd ei angen ar gyfer 2017/18 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer benthyca cynnar ar raddfa gyfyngedig yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo polisi o fenthyca cyn i'r angen godi a glynir wrth y polisi hwnnw os gwelir bod hynny'n ddarbodus.

| | **Amcangyfrif Gwreiddiol 2017/18 £000** | **Sefyllfa GCC ar 30 Medi 2017 £000** | **Amcangyfrif Diwygiedig 2017/18 £000** |
|---|---|---|---|
| Benthyca gros | 141,730 | 111,430 | 138,060 |
| Yn ogystal â rhwymedigaethau tymor hir eraill | Dim | Dim | Dim |
| Benthyca gros | 141,730 | 111,430 | 138,060 |
| GCC (sefyllfa diwedd blwyddyn) | 141,730 | n / a | 138,060 |

**5.5.2** Ni ragwelir y bydd unrhyw anawsterau o ran cydymffurfio â'r dangosydd darbodus eleni.

**5.5.3** Mae dangosydd darbodus pellach yn rheoli'r lefel fenthyca gyffredinol. Hwn yw'r Terfyn Awdurdodedig ac ni chaniateir cymryd benthyg mwy na'r swm hwn. Aelodau sy'n pennu a diwygio'r terfyn hwn, sef £170m ar hyn o bryd. Mae'n adlewyrchu faint o arian y gallwn fforddio ei fenthyca yn y tymor byr, er na fyddai'n ddymunol gwneud hynny, ond nid yw'n gynaliadwy yn y tymor hirach. Hwn yw'r uchafswm y disgwylir y bydd angen ei fenthyca, gyda pheth hyblygrwydd ar gyfer symudiadau annisgwyl. Hwn yw'r terfyn statudol a bennir o dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

| **Terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol** | **Dangosydd Gwreiddiol 2017/18** | **Y Sefyllfa fenthyca Gyfredol ar 30 Medi 2017 £'000** |
|---|---|---|
| Benthyca | 167,000 | 111,430 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 3,000 | Dim |
| Cyfanswm | 170,000 | 111,430 |

## 6. Portffolio Buddsoddi 2017/18

**6.1** Yn unol â'r Côd, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau diogelwch cyfalaf a hylifedd, a chael lefel briodol o elw ar ei fuddsoddiadau sy'n gyson ag archwaeth risg y Cyngor. Fel y nodir yn Adran 3, mae'n farchnad fuddsoddi anodd iawn o ran cael y cyfraddau llog a welwyd yn gyffredin yn y degawdau blaenorol gan fod y cyfraddau yn isel iawn ar hyn o bryd ac yn gyson â'r gyfradd banc sylfaenol, sef 0.25%. Mae'r posibilrwydd parhaus o argyfwng dyled sofran ym mharth yr Ewro, ynghyd â'r risgiau eraill a allai gael effaith ar statws credyd y banciau yn ein hannog i ddilyn strategaeth risg isel a thymor byr. O ystyried yr amgylchedd risg hwn a'r ffaith y bydd cynnydd yn y gyfradd sylfaenol yn debygol o ddigwydd yn raddol ac yn annhebygol o ddychwelyd i'r lefelau a welwyd yn y gorffennol, mae'r incwm a geir o fuddsoddiadau yn debygol o barhau i fod yn isel.

**6.2** Ar 30 Medi 2017 roedd gan y Cyngor £9.4 miliwn o fuddsoddiadau (£13.3m ar 31 Mawrth 2017) a'r elw a gafwyd o'r portffolio o fuddsoddiadau yn chwe mis cyntaf y flwyddyn oedd 0.15%. Mae rhestr lawn o fuddsoddiadau a oedd gan y Cyngor ar 30 Medi 2017 i'w gweld yn Atodiad 4. Gellir gweld crynodeb o'r buddsoddiadau a'r cyfraddau yn Atodiad 3.

**6.3** Ni fuddsoddwyd mwy na'r terfynau a gymeradwyir yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod chwe mis cyntaf 2017/18.

**6.4** Yr incwm y mae'r Cyngor wedi cyllidebu y bydd yn ei dderbyn o'i fuddsoddiadau yn 2017/18 yw £0.015m ac mae'r perfformiad dros y flwyddyn hyd yma yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd, gyda £0.013m wedi ei dderbyn hyd at ddiwedd Chwarter 2.

**6.5** Mae'r meini prawf ar gyfer buddsoddiadau gyda gwrthbartïon a gymeradwywyd yn y DSRhT yn cwrdd â gofynion y swyddogaeth rheoli trysorlys.

**6.6** Yn ystod chwe mis cyntaf 2017/18, aeddfedodd buddsoddiad tymor penodol gyda Bwrdeistref Barking a Dagenham yn Llundain am £5m ar 22 Mai 2017. Cafodd y buddsoddiad ei alw'n ôl a'r roi yn un o'n cyfrifon galw.

**6.7** Meini prawf ar gyfer Buddsoddi gyda Gwrth-bartïon – mae'r meini prawf ar gyfer dewis gwrth-bartïon a gymeradwywyd yn y DSRhT yn bodloni gofynion y swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

## 7 Benthyca


**7.1** Y gofyniad cyllido cyfalaf a ragwelir (GCC) ar gyfer 2016/17 yw £138.1m. Mae'r GCC yn dynodi angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf. Os bydd y GCC yn gadarnhaol, gall y Cyngor fenthyg gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus neu'r farchnad (benthyca allanol) neu o falansau mewnol ar sail dros dro (benthyca mewnol). Mae'r cydbwysedd rhwng benthyciadau allanol a benthyciadau mewnol yn cael ei yrru'n gyffredinol gan gyflwr y farchnad. Rhagwelir y bydd y Cyngor wedi benthyca £118.0m ar ddiwedd y flwyddyn ac y bydd wedi defnyddio £20.1m o gronfeydd llif arian yn lle benthyca. Mae hon yn ffordd ddoeth a chost-effeithiol o weithredu yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ond bydd angen monitro'r sefyllfa'n barhaus os bydd yr enillion o giltiau yn uwch nag a ragwelwyd.

**7.2** Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen benthyca yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol.

**7.3** Yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol, aeddfedodd dau Fenthyciad Tymor Hir gwahanol gyda'r BBGC. Aeddfedodd y benthyciad cyntaf am £2.5m ar 06/06/17, a'r gyfradd llog ar y benthyciad hwn oedd 3.25%. Aeddfedodd yr ail fenthyciad am £3.0m ar 17/07/17, a'r gyfradd llog ar y benthyciad hwn oedd 10.375%. Gwnaed yr ad-daliadau hyn o'r balansau arian cyfredol ac ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd i ariannu'r ad-daliad.

**7.4** Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos y symudiad yng nghyfraddau sicrwydd BBGC am chwe mis cyntaf y flwyddyn hyd yma. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth yn y graff i gynorthwyo gydag unrhyw fenthyciadau yn y dyfodol. Er bod y cyfraddau wedi dechrau cynyddu'n ddiweddar, 'rydym yn dal i beidio cymryd benthyciadau tymor hir. Byddwn yn cymryd benthyciadau tymor byr i sicrhau bod gennym ddigon o arian parod a byddwn yn cadw llygad ar y sefyllfa ac yn cymryd cyngor gan ein ymgynghorwyr Trysorlys:-

**Cyfraddau sicrwydd BBGC 1 Ebrill 2017 hyd at 30 Medi 2017**




## 8. Aildrefnu Dyledion

**8.1** Mae'r cyfleoedd i aildrefnu dyledion wedi bod yn brin iawn yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni o ystyried strwythur cyfraddau llog ac yn dilyn y cynnydd yn y gorswm a ychwanegwyd at elw o giltiau sydd wedi effeithio ar gyfraddau benthyca newydd BBGC ers mis Hydref 2010. Felly, nid oes unrhyw ddyledion wedi eu haildrefnu hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon.

## 9. Gweithgaredd ers y Chwarter

**9.1** Ers i Chwarter 2 ddod i ben, mae'r awdurdod wedi trefnu i fenthyca £5m o Gronfa Bensiwn Tyne and Wear yn South Sheilds. Bydd y benthyciad yn digwydd o 20/10/17 hyd at 19/01/18 ar gyfradd o 0.33%. Mae'r penderfyniad hwn yn unol â'n strategaeth fenthyca, sef benthyca tymor hirach dim ond pan ydym angen yr arian yn hytrach na benthyca dim ond i fanteisio ar gyfraddau benthyca isel, a hynny oherwydd bod y gost o wneud hynny'n rhy uchel (y gwahaniaeth rhwng y llog a delir a'r elw ar fuddsoddiadau).

## 10. Cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf

**10.1** Yn ei gyfarfod nesaf ym mis Chwefror, bydd y Pwyllgor hwn yn ystyried y cynlluniau ar gyfer benthyca am y flwyddyn ariannol nesaf. Y cynllun cychwynnol ar gyfer 2018/19, fel yr amlinellir yn y Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 30 Hydref 2017 yw: -

- defnyddio'r swm sydd ei angen o'r dyraniad benthyca â chymorth cyffredinol o £2.192m sydd ar gael, a £2.558m o fenthyca â chymorth penodol ar gyfer rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain; a
- £3.433m o fenthyciadau digymorth ar gyfer rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain;

## 11. Diweddariadau ychwanegol

**11.1 Codau Diwygiedig CIPFA –** Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, (CIPFA), ar hyn o bryd yn cynnal ymarferiad i ymgynghori ag awdurdodau lleol ar ddiwygio'r Côd Rheoli'r Trysorlys a Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-sectoraidd, a'r Côd Darbodus. Mae CIPFA yn anelu at gyhoeddi'r codau diwygiedig yn ystod mis Tachwedd. Un mater penodol sy'n cael sylw yn yr ymarfer hwn yw sut i ddelio â buddsoddiadau awdurdodau lleol nad ydynt yn fuddsoddiadau o fath trysorlys e.e. trwy fuddsoddi mewn prynu eiddo er mwyn cynhyrchu incwm i'r awdurdod ar lefel sy'n llawer uwch nag y gellir ei gyflawni gyda buddsoddiadau trysorlys. Mae swyddogion yn monitro datblygiadau a byddant yn adrodd i aelodau pan fydd y codau newydd wedi eu cytuno a'u cyhoeddi ac ar eu heffaith debygol ar yr awdurdod hwn.

**11.2 MIFID II –** Mae'r UE bellach wedi gosod dyddiad cau o 3 Ionawr 2018 ar gyfer cyflwyno rheoliadau o dan MIFID II. O'r dyddiad hwnnw bydd y rheoliadau hyn yn llywodraethu'r berthynas rhwng sefydliadau ariannol sy'n cymryd a rhoi benthyg ac awdurdodau lleol. Mae dau opsiwn ar gael i'r Cyngor, naill ai dewis symud i fyny i statws proffesiynol, neu aros fel cleientiaid manwerthu. Os yw'r awdurdod yn penderfynu dewis symud i fyny i statws proffesiynol, byddai hyn yn caniatáu mynediad i fuddsoddiadau yn y farchnad arian, a ganiateir o dan y strategaeth. Fodd bynnag, o dan y statws hwn, mae gan y Cyngor lai o ddiogelwch ar gyfer ei fuddsoddiadau Rheoli Trysorlys. Os am symud i fyny, mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd sicrhau bod ganddo £10m yn ei bortffolio buddsoddi a byddai'n rhaid iddo gyflawni nifer benodol o drafodion bob chwarter fel isafswm. Os yw'r Cyngor am aros fel cleientiaid manwerthu, gall barhau i gael mynediad at yr holl fathau o fuddsoddiadau sydd ar gael iddo ar hyn o bryd, megis cyfrifon galw, ond ni fyddai'n gallu cael mynediad i farchnadoedd arian. Fodd bynnag, gan fod y Cyngor wedi bod yn dibynnu ar fenthyca mewnol, mae'n annhebygol y bydd mewn sefyllfa i fuddsoddi mewn marchnadoedd arian yn y dyfodol agos oherwydd balansau llai ar gyfer arian parod. Os yw balansau arian parod y Cyngor yn gwella yn y dyfodol ac os hoffai'r awdurdod fuddsoddi mewn marchnadoedd arian, mae opsiwn bob amser i ddewis symud i fyny i statws proffesiynol ar ôl 3 Ionawr 2018.

## 12. Argymhellion

**12.1** Ystyried cynnwys yr adroddiad ac anfon unrhyw sylwadau ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith.

**12.2** O dan MIFID II, argymhellir bod y Cyngor yn aros fel cleientiaid manwerthu hyd nes y byddai'r awdurdod yn medru elwa o ddefnyddio marchnadoedd arian.

## Diweddariad ar yr Economidd hyd yma a'r rhagolygiad/ Economic Update

### 1. United Kingdom (UK)

After the UK economy surprised on the upside with strong growth in 2016, growth in 2017 has been disappointingly weak; quarter 1 came in at only +0.3% (+1.7% y/y) and quarter 2 was +0.3% (+1.5% y/y) which meant that growth in the first half of 2017 was the slowest for the first half of any year since 2012. . The main reason for this has been the sharp increase in inflation, caused by the devaluation of sterling after the referendum, feeding increases in the cost of imports into the economy. This has caused, in turn, a reduction in consumer disposable income and spending power and so the services sector of the economy, accounting for around 75% of GDP, has seen weak growth as consumers cut back on their expenditure. However, more recently there have been encouraging statistics from the manufacturing sector which is seeing strong growth, particularly as a result of increased demand for exports. It has helped that growth in the EU, our main trading partner, has improved significantly over the last year. However, this sector only accounts for around 11% of GDP so expansion in this sector will have a much more muted effect on the average total GDP growth figure for the UK economy as a whole.

The Monetary Policy Committee (MPC) meeting of 14 September 2017 surprised markets and forecasters by suddenly switching to a much more aggressive tone in terms of its words around warning that Bank Rate will need to rise. The Bank of England Inflation Reports during 2017 have clearly flagged up that they expected CPI inflation to peak at just under 3% in 2017, before falling back to near to its target rate of 2% in two years time. Inflation actually came in at 2.9% in August, (this data was released on 12 September), and so the Bank revised its forecast for the peak to over 3% at the 14 September meeting MPC. This marginal revision can hardly justify why the MPC became so aggressive with its wording; rather, the focus was on an emerging view that with unemployment falling to only 4.3%, the lowest level since 1975, and improvements in productivity being so weak, that the amount of spare capacity in the economy was significantly diminishing towards a point at which they now needed to take action. In addition, the MPC took a more tolerant view of low wage inflation as this now looks like a common factor in nearly all western economies as a result of increasing globalisation. This effectively means that the UK labour faces competition from overseas labour e.g. in outsourcing work to third world countries, and this therefore depresses the negotiating power of UK labour. However, the Bank was also concerned that the withdrawal of the UK from the EU would effectively lead to a decrease in such globalisation pressures in the UK, and so would be inflationary over the next few years.

It therefore looks very likely that the MPC will increase Bank Rate to 0.5% in November or, if not, in February 2018. The big question after that will be whether this will be a one off increase or the start of a slow, but regular, increase in Bank Rate. As at the start of October, short sterling rates are indicating that financial markets do not expect a second increase until May 2018 with a third increase in November 2019. However, some forecasters are flagging up that they expect growth to improve significantly in 2017 and into 2018, as the fall in inflation will bring to an end the negative impact on consumer spending power while a strong export performance will compensate for weak services sector growth. If this scenario were to materialise, then the MPC would have added reason to embark on a series of slow but gradual increases in Bank Rate during 2018. While there is so much uncertainty around the Brexit negotiations, consumer confidence, and business confidence to spend on investing, it is far too early to be confident about how the next two years will pan out.

### 2. European Union (EU)

Economic growth in the EU, (the UK's biggest trading partner), has been lack lustre for several years after the financial crisis despite the ECB eventually cutting its main rate to -0.4% and embarking on a massive programme of QE. However, growth picked up in 2016 and now looks to have gathered ongoing substantial strength and momentum thanks to this stimulus. GDP growth was 0.5% in quarter 1 (2.0% y/y) and 0.6% in quarter (2.3% y/y). However, despite providing massive monetary stimulus, the European Central Bank is still struggling to get inflation up to its 2% target and in August inflation was 1.5%. It is therefore unlikely to start on an upswing in rates until possibly 2019.

## 3. United States of America (USA)

Growth in the American economy has been volatile in 2015 and 2016. 2017 is following that path again with quarter 1 coming in at only 1.2% but quarter 2 rebounding to 3.1%, resulting in an overall annualised figure of 2.1% for the first half year. Unemployment in the US has also fallen to the lowest level for many years, reaching 4.4%, while wage inflation pressures, and inflationary pressures in general, have been building. The Fed has started on a gradual upswing in rates with three increases since December 2016; and there could be one more rate rise in 2017 which would then lift the central rate to 1.25 – 1.50%. There could then be another four more increases in 2018. At its June meeting, the Fed strongly hinted that it would soon begin to unwind its $4.5 trillion balance sheet holdings of bonds and mortgage backed securities by reducing its reinvestment of maturing holdings.

## 4. China

Chinese economic growth has been weakening over successive years, despite repeated rounds of central bank stimulus; medium term risks are increasing. Major progress still needs to be made to eliminate excess industrial capacity and the stock of unsold property, and to address the level of non-performing loans in the banking and credit systems.

## 5. Japan

Japan is struggling to stimulate consistent significant growth and to get inflation up to its target of 2%, despite huge monetary and fiscal stimulus. It is also making little progress on fundamental reform of the economy.

***Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Capita Asset Services***

**Sylwadau ar y rhagolygon diweddaraf ar raddfeydd llog/Commentary on the latest interest rates forecasts**

Capita Asset Services undertook its last review of interest rate forecasts on 9 August after the quarterly Bank of England Inflation Report. There was no change in MPC policy at that meeting. However, the MPC meeting of 14 September revealed a sharp change in sentiment whereby a majority of MPC members said they would be voting for an increase in Bank Rate “over the coming months”. It is therefore possible that there will be an increase to 0.5% at the November MPC meeting. If that happens, the question will then be as to whether the MPC will stop at just withdrawing the emergency Bank Rate cut of 0.25% in August 2016, after the result of the EU withdrawal referendum, or whether they will embark on a series of further increases in Bank Rate during 2018.
The overall balance of risks to economic recovery in the UK is currently to the downside but huge variables over the coming few years include just what final form Brexit will take, when finally agreed with the EU, and when.

Downside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates currently include:

- UK economic growth and increases in inflation are weaker than we currently anticipate.
- Weak growth or recession in the UK’s main trading partners - the EU and US.
- Geopolitical risks in Europe, the Middle East and Asia, which could lead to increasing safe haven flows.
- A resurgence of the Eurozone sovereign debt crisis.
- Weak capitalisation of some European banks.
- Monetary policy action failing to stimulate sustainable growth and to get inflation up consistently to around monetary policy target levels.

The potential for upside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates, especially for longer term PWLB rates include: -

- The pace and timing of increases in the Fed. Funds Rate causing a fundamental reassessment by investors of the relative risks of holding bonds as opposed to equities and leading to a major flight from bonds to equities.
- UK inflation returning to significantly higher levels causing an increase in the inflation premium inherent to gilt yields.

***Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Capita Asset Services***

**Crynodeb Benthyca a Buddsoddi – Chwarteroedd 1 a 2 2017/18**
**Borrowing and Investment Summary – Quarters 1 and 2 2017/18**

| | 30 Medi / Sept 2017 | | 30 Mehefin / June 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | £m | % (paid on borrowing and received on investment) | £m | % (paid on borrowing and received on investment) |
| Benthyca – graddfa sefydlog<br>Borrowing – fixed rate | 111.4 | 5.15 | 114.4 | 5.29 |
| Benthyca – graddfa amrywiol<br>Borrowing – variable rate | Dim / Nil | d/b / n/a | Dim / Nil | d/b / n/a |
| Adneuon – galw hyd at 30 diwrnod<br>Deposits – Call to 30 days | 9.4 | 0.15 | 15.7 | 0.14 |
| Adneuon – Tymor sefydlog < 1 bl.<br>Deposits – Fixed Term < 1 year | Dim / Nil | d/b / n/a | Dim / Nil | d/b / n/a |
| Adneuon – Tymor sefydlog 1 bl. +<br>Deposits – Fixed Term 1 year + | Dim / Nil | d/b / n/a | Dim / Nil | d/b / n/a |
| Cyfanswm Adneuon<br>Total Deposits | 9.4 | 0.15 | 15.7 | 0.14 |
| Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter<br>Highest Deposits in the Quarter | 19.0 | d/b / n/a | 26.0 | d/b / n/a |
| Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter<br>Lowest Deposits in the Quarter | 8.8 | d/b / n/a | 13.3 | d/b / n/a |
| Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter<br>Average Deposits in the Quarter | 17.6 | 0.16 | 20.8 | 0.16 |

Ni dorwyd unrhyw un o'r dangosyddion trysorlys yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.
None of the treasury indicators were breached during the first half of the year.

**ATODIAD / APPENDIX 4**

## Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 30 Medi 2017*
## Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 30 September 2017*

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From / To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **1,591** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.15** | **A+** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red - 6 months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **7,457** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.15** | **A** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis / Red - 6 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **2** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.10** | **BBB+** | **F2** | **A2** | **P-1** | **BBB+** | **A-2** | **Glas - 12 mis / Blue - 12 months** |
| National Westminster Bank Ltd | National Westminster Bank Ltd Cash Manager A/c | **334** | **Galw/Call** | **n/a** | **0.01** | **BBB+** | **F2** | **A2** | **P-1** | **BBB+** | **A-2** | **Glas - 12 mis/ Blue - 12 months** |



* Ceir y Rhestr Benthyca Cymeradwyedig yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18/Strategaeth Buddsoddi Blynyddol/ The Approved Lending List can be found at Appendix 6 of the 2017/18 Treasury Management Strategy Statement / Annual Investment Strategy

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**Approved countries for investments**

*Based upon lowest available sovereign credit rating*


AAA
- Australia
- Canada
- Denmark
- Germany
- Luxembourg
- Netherlands
- Norway
- Singapore
- Sweden
- Switzerland


AA+
- Finland
- Hong Kong
- U.S.A.

AA
- Abu Dhabi (UAE)
- France
- U.K.

AA-
- Belgium
- Qatar

## Graffiau Ychwanegol / Additional Graphs



This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD:** | **5 RHAGFYR 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADOLYGU'R STRATEGAETH A'R FFRAMWAITH RHEOLI RISG** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151**<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **Julie Jones, Rheolydd Risg ac Yswiriant**<br>01248 752609<br>juliejones@ynysmon.gov.uk |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**
Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, mae'n rhaid iddo adolygu sut mae trefniadau rheoli risg yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u gwreiddio o fewn gweithgareddau'r Cyngor, gan gynnwys llunio adroddiadau a chyflwyno argymhellion i'r Cyngor ar ddigonolrwydd y trefniadau hynny. Yn ychwanegol, mae polisi Rheoli Risg y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu priodoldeb ei brosesau rheoli risg a sicrwydd. Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o'r prosesau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu eu hystyried.

## Rhagarweiniad

**1**. Cymeradwywyd y Polisi Rheoli Risg gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2015. Mae'r polisi'n nodi bod gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gyfrifoldeb am adolygu priodoldeb y prosesau rheoli risg a sicrwydd sydd ar waith. Ochr yn ochr â'r Canllawiau Rheoli Risg cysylltiedig, y polisi hwn yw'r sail ar gyfer dull y Cyngor o reoli risgiau. Mae'r dogfennau hyn ynghlwm wrth yr adroddiad hwn er gwybodaeth.

## Adolygu'r Strategaeth a'r Fframwaith Rheoli Risg

**2**. Mae'n ddoeth adolygu priodoldeb y dogfennau hyn o bryd i'w gilydd er mwyn rhoi trosolwg i'r Pwyllgor hwn o briodoldeb y broses rheoli risg. Cynhaliodd y Pennaeth Archwilio a Risg a'r Rheolydd Risg ac Yswiriant adolygiad yn ystod chwarter 2, ar y cyd â'r UDA a'r Penaethiaid.

**3.** Canfu'r adolygiad fod y broses ei hun yn un safonol a'i bod yn gyson â phrosesau sefydliadau eraill. Roedd yn ymddangos fodd bynnag nad yw'r prosesau wedi gwreiddio'n llwyr o fewn arferion gwaith y Cyngor, gan arwain at broses sy'n ymarfer ticio blychau yn hytrach nag un sy'n gyfrwng hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol a gwybodus.

**4.** Yn unol â'r prosesau a sefydlwyd, mae'n rhaid i bob Gwasanaeth adolygu a chyflwyno cofrestrau risg eu gwasanaeth bob chwarter. Bu unrhyw risgiau coch neu ambr yn cael eu cyfeirio at yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth fel y gellir ystyried eu cynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Gofynnwyd i'r Gwasanaethau hefyd am ddiweddariad ar gyfer unrhyw fesurau lliniaru sydd angen eu gweithredu er mwyn rheoli risgiau corfforaethol. Canfu'r adolygiad nad oedd yr holl wasanaethau yn cyflwyno'r diweddariadau hyn, ac nad oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei chyflwyno yn ychwanegu fawr ddim o werth a'i bod, yn aml, wedi dyddio hefyd. Er mwyn gwella'r sefyllfa hon, cytunwyd bod y cyfrifoldeb am ofyn am ddiweddariadau a Chofrestrau Risg Gwasanaeth yn trosglwyddo o'r Tîm Perfformiad i'r Rheolydd Risg ac Yswiriant a bod y Rheolydd Risg ac Yswiriant hefyd yn cwrdd â phob Pennaeth Gwasanaeth o leiaf bob chwe mis i drafod eu risgiau.

**5.** Canfu'r adolygiad bod trefn wedi ei sefydlu i'r UDA adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol bob chwarter yn unol a'r Polisi a Chanllawiau Rheoli Risg. Tra bod y drefn hon wedi ei weithredu bu lithro am gyfnod gan olygu bod yr UDA heb adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ystod hanner cyntaf 2017. Er mwyn sicrhau bod arferion rheoli risg yn gwreiddio'n gadarn dylai'r UDA ystyried pob risg sy'n gysylltiedig â'r holl faterion a gyflwynir i'w sylw a sicrhau bod cofnod ohonynt yn y gofrestr risg berthnasol (corfforaethol, gwasanaeth, partneriaeth neu brosiect). Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, mae'r UDA wedi cytuno i'r Rheolydd Risg ac Yswiriant fynychu cyfarfod o'r UDA o leiaf unwaith bob tri mis i'w cynorthwyo i adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Bydd hyn yn caniatáu i'r Rheolydd Risg ac Yswiriant gyflwyno'r Gofrestr Risg Gorfforaethol i'r Pwyllgor hwn a Chyfarfod Busnes y Pwyllgor Gwaith / UDA ddwywaith y flwyddyn.

**6.** Canfu'r adolygiad hefyd nad oes gan Aelodau a Swyddogion bob amser yr holl wybodaeth am y risgiau cysylltiedig pan fônt yn gwneud penderfyniadau. Y rheswm am hyn yw mai anaml iawn y cwblheir y rhan o'r adroddiad pwyllgor safonol sy'n nodi risgiau ac nid oes unrhyw drefn wedi ei sefydlu ar gyfer cynnig sylwadau ar y risgiau hyn nac i ystyried eu cynnwys ar y gofrestr risg briodol. Yn ystod trafodaethau gyda'r UDA, ystyriwyd bod angen adolygu'r templed safonol ar gyfer adroddiadau pwyllgor i roi sylw i hynny a materion eraill. Yn y cyfamser, mae canllawiau'n cael eu paratoi ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â risg.

**7.** Yn olaf, nododd yr adolygiad, er bod uwch reolwyr a rheolwyr canol wedi derbyn hyfforddiant ar reoli risg yn 2014, ni chynhigiwyd unrhyw hyfforddiant i Aelodau Etholedig. Felly, mae trefniadau'n cael eu gwneud i ddarparu hyfforddiant i Aelodau Etholedig hefyd. Yn yr un modd, gofynnwyd i Benaethiaid Gwasanaeth sut fath o hyfforddiant fyddai o fudd iddynt a'u rheolwyr er mwyn sicrhau y darperir hyfforddiant addas ar eu cyfer.

**8.** Ers yr adolygiad, cymerwyd y camau a nodir ym mharagraffau 5 a 6 uchod. Cyflwynodd pob Gwasanaeth Gofrestr Risg Gwasanaeth wedi ei ddiweddaru ar ddiwedd chwarter 2 fel bod modd cyflwyno Cofrestr Risg Gorfforaethol ddiweddaredig i'r UDA ar gyfer trafodaeth yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2017. Mae'r Rheolydd Risg ac Yswiriant hefyd wedi cwrdd â thri Phennaeth Gwasanaeth neu wedi mynychu eu timau rheoli i drafod eu risgiau ac mae trefniadau mewn llaw i gwrdd â dau Bennaeth Gwasanaeth arall a'u timau rheoli cyn y Nadolig.

## Argymhelliad

**9.** Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn a chymryd sicrwydd, er bod gwaith i'w wneud i wreiddio'r arferion rheoli risg yn llawn drwy'r Cyngor, fod cynnydd wedi'i wneud ac yn parhau.

# Polisi Rheoli Risg

**Cyd-destun**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn sefydliad amrywiol sydd yn ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd, sy’n gynaliadwy ac sy’n rhoi gwerth am arian i’r gymuned. Drwy ddarparu arweinyddiaeth gymunedol gref a thrwy weithio mewn partneriaeth, mae’r Cyngor yn ymrwymo i wireddu’r weledigaeth yn ein strategaeth gymunedol a’r Cynllun Corfforaethol.

Diffinnir risg fel “*digwyddiad a fyddai, petai’n digwydd, yn cael effaith ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus”.* Mae’r Cyngor yn cydnabod bod risgiau ynghlwm wrth ein holl weithgareddau a bod dyletswydd arnom i reoli’r risgiau hyn mewn ffordd gytbwys, strwythuredig a chost effeithiol. Felly, ystyrir y broses o nodi, asesu, rheoli a monitro risg yn rhan annatod o'r broses reoli. O ganlyniad, byddwn mewn sefyllfa gryfach i wella ein gallu i ddarparu gwasanaethau, cyflawni ein hamcanion a sicrhau gwerth am arian.

**Gweledigaeth**

Y weledigaeth ar gyfer rheoli risg yw ei fod yn darparu fframwaith i reoli risg o fewn terfynau y cytunwyd arnynt er mwyn cyflawni’r canlyniadau dymunol ar lefel corfforaethol, gwasanaeth a phrosiect.

Os na fyddwn yn nodi, asesu a rheoli ein risgiau gall hynny arwain at wariant sylweddol nad yw yn y gyllideb, difrod i'n henw da a hyder y gymuned.

Mae’n cael ei gydnabod bod rhaid derbyn rhywfaint o risg er mwyn cyflawni ein hamcanion. Ein polisi, felly, yw sicrhau diwylliant o gymryd risgiau gwybodus lle yr ydym yn eglur am y risgiau hynny yr ydym wedi dewis eu derbyn a’r rhai yr ydym wedi dewis i beidio derbyn.

**Amcanion**

Amcanion polisi rheoli risg y Cyngor yw:

1. Datblygu dull gweithredu cyson ar gyfer rheoli risg ar draws y Cyngor.
2. Ymgorffori rheoli risg fel rhan annatod o broses reoli’r Cyngor, a sicrhau cysylltiadau clir gyda Chynlluniau Gwasanaeth.
3. Sicrhau diwylliant rhagweithiol sy'n ymwybodol o risg ar draws pob rhan o'r Cyngor, lle mae risg yn cael ei chymryd (neu beidio) yn wybodus ym mhob penderfyniad a gweithred o bwys.
4. Cynnal a gwella hyder cwsmeriaid yn ein gallu i gyflawni ein hymrwymiadau.
5. Lleihau’r posibilrwydd o weithgarwch neu gostau ariannol heb eu cynllunio, a'u heffaith ar enw da’r Cyngor a’r gallu i gyflawni ein hamcanion.
6. Rheoli risg yn unol ag arferion gorau, ymrwymiadau statudol a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.
7. Gweithio gyda'n partneriaid a’n darparwyr i ddatblygu dull cyffredin o gyflawni ein hamcanion rheoli risg.

**Egwyddorion**

Mae'r egwyddorion allweddol canlynol yn nodi sut bydd y Cyngor yn cyflawni ein amcanion ar gyfer rheoli risg:

1. Mae rheoli risg yn broses barhaus ac nid yw'n ddigwyddiad. Mae'r broses ar gyfer rheoli risg yn sicrhau bod risgiau allweddol yn cael eu nodi, eu gwerthuso, eu monitro'n barhaus a'u lliniaru lle mae angen hynny i lefel dderbyniol.
2. Rhaid i wybodaeth risg gael ei nodi, ei hasesu a'i rheoli a rhaid adrodd arni yn amserol, yn gywir, yn berthnasol a chan roi sylw digonol i'r risgiau allweddol er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau rheoli.
3. Mae'r broses ar gyfer rheoli risg yn rhan annatod o reoli a chwblhau'n llwyddiannus unrhyw weithgaredd, prosiect neu broses.
4. Dylai rheoli risg fod yn hollgynhwysol ond nid yn feichus nac yn fiwrocrataidd, nac ychwanegu'n afresymol at y gost o redeg y Cyngor.

**Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**

Y prif swyddogaethau a chyfrifoldebau yw:

- *Prif Weithredwr a'r UDA*
  Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli risg mewn modd effeithiol ar draws y Cyngor gyda chefnogaeth yr Uwch Dim Arweinyddiaeth a'r swyddogion sydd â'r cyfrifoldeb statudol am wasanaethau penodol. Mae'r Prif Weithredwr a'r UDA yn gyfrifol am sicrhau bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gywir a bod y risgiau yn cael eu rheoli'n dda.
- *Penaethiaid Gwasanaeth a Phenaethiaid*
  Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu'r Polisi Rheoli Risg ac am sicrhau bod risgiau gwasanaeth yn cael eu rheoli'n dda yn eu maes cyfrifoldeb nhw ac, ar y cyd, mae'r Penaethiaid yn gyfrifol am gefnogi'r Prif Weithredwr a'r UDA i reoli Risgiau Corfforaethol.
- *Aelodau Etholedig*
  Yn gyfrifol am lywodraethaint da o ran darparu gwasanaethau ar gyfer y gymuned a sicrhau fod gan Swyddogion y Cyngor drefniadau rheoli risg effeithiol yn eu lle.
- *Pwyllgor Gwaith*
  Yn gyfrifol am gymeradwyo Polisi Rheoli Risg y Cyngor, yr Awydd i gymryd Risg ac am oruchwylio'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- *Pwyllgor Archwilio*
  Yn gyfrifol am adolygu priodoldeb y prosesau rheoli risg a sicrwydd.
- *Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol*
  Sgriwtineiddio risgiau o bwys mawr.
- *Pob Gweithiwr*
  Mae'n ddyletswydd ar bob gweithiwr i reoli risg.

**Gweithdrefnau Rheoli Risg**

Darperir canllawiau pellach i gefnogi gweithrediad y polisi hwn yng Nghanllawiau Rheoli Risg y Cyngor.

# Canllawiau Rheoli Risg

## 1. Rhagarweiniad

### 1.1 Cefndir
Yn ei Bolisi Rheoli Risg, mae'r Cyngor yn cydnabod bod risgiau ynghlwm wrth ein holl weithgareddau, a bod gennym ddyletswydd i reoli'r rhain mewn modd cytbwys, strwythuredig a chost effeithiol. Ystyrir y broses ar gyfer rheoli risg fel rhan annatod o'n prosesau rheoli a gwneud penderfyniadau rheoli ac mae'n cyfrannu at gyflawni ein hamcanion.

### 1.2 Pwrpas
Pwrpas y ddogfen hon yw helpu i reoli risg a cheisio cydymffurfio â'r datganiad polisi. Mae'n rhoi arweiniad i ni mewn perthynas â'n dull o reoli risg a sut a ble i'w ddefnyddio yn y cyngor.

### 1.3 Diffiniad
***"Risg"*** yw'r ansicrwydd o ran canlyniad gweithredoedd neu ddigwyddiadau, boed yn gyfle positif neu'n fygythiad negyddol. Ein diffiniad ni o risg yw "digwyddiad a fyddai, petai'n digwydd, yn cael effaith ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus'.

Yn aml, ceir dryswch rhwng ystyr risgiau a materion. Mae ***"mater"*** yn cyfeirio at ganlyniadau rhywbeth sydd eisoes wedi digwydd a'r camau rheoliad sydd ar y gweill neu sydd wedi eu cynllunio ar gyfer eu lliniaru.

### 1.4 Gofynion Rheoleiddiol
Mae Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI) 2010 yn mynnu fod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn sicrhau gwelliant parhaus drwy gymryd rôl fwy rhagweithiol wrth ddarparu eu swyddogaethau ar lefel strategol a gweithredol. Mae cynhyrchu Cofrestrau Risgiau sy'n seiliedig ar wasanaethau a Chofrestr Risg Gorfforaethol yn elfennau pwysig o ofynion y WPI.

Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n cynnwys asesiad o reoli risg yn y Cyngor a mecanweithiau rheoli mewnol a'u heffeithiolrwydd o safbwynt ymarferol.

## 2. Swyddogaethau a chyfrifoldebau
Isod, gweler y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg yn y Cyngor.

### 2.1 Prif Weithredwr a Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)
- Dan arweiniad y Prif Weithredwr, mae'r UDA yn gyfrifol am reoli risg yn effeithiol ar draws y Cyngor. Gwneir hyn drwy:
  Sicrhau bod gweithdrefnau Rheoli Risg yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas ac yn gweithredu'n effeithiol.
- Hyrwyddo diwylliant o reoli risg o fewn y Cyngor.
- Sicrhau bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gywir a bod y risgiau'n cael eu rheoli'n dda ac yn cael eu hystyried yn briodol wrth wneud penderfyniadau corfforaethol.
- Bod cofrestrau risg yn cael eu hadolygu gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth fel rhan o gyfarfodydd goruchwylio rheolaidd i sicrhau bod y risgiau yn parhau'n berthnasol, bod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi, a bod camau gweithredu'n cael eu

## 2.2 Penaethiaid Gwasanaeth & Phenaethiaid

Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am:

- Weithredu Rheoli Risg yn eu maes cyfrifoldeb.
- Nodi a gwerthuso'n rheolaidd y risgiau sylweddol a wynebir yn eu maes cyfrifoldeb a chymryd camau i sicrhau bod y rhain yn cael eu rheoli mor effeithiol â phosibl.
- Monitro ac uwch-gyfeirio gwybodaeth mewn modd amserol.
- Gyda'i gilydd, mae'r Penaethiaid yn gyfrifol am gefnogi'r Prif Weithredwr a'r UDA i reoli Risgiau Corfforaethol.

## 2.3 Aelodau Etholedig

Mae pob Aelod yn gyfrifol am:

- Lywodraethiant da wrth ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol gan sicrhau felly fod swyddogion y cyngor yn sefydlu prosesau rheoli risg effeithiol;
- Sicrhau bod risgiau'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau;
- Deall y risgiau corfforaethol sy'n wynebu'r cyngor, a bod yn ymwybodol o'r modd y mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli;
- Dwyn sylw at risgiau nad ydynt wedi eu nodi eisoes (ar gyfer sylw'r swyddogion)

Yn ogystal, mae gan Aelodau sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgor Archwilio, a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y cyfrifoldebau penodol canlynol: -

### 2.3.1 Pwyllgor Gwaith

- Dal y Prif Weithredwr a'r UDA i gyfrif am weithredu gweithdrefnau addas i'r pwrpas ar gyfer rheoli risg;
- Cymeradwyo'r Polisi Rheoli Risg a'r Awch o ran Risg;
- Goruchwylio'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan sicrhau ei bod yn gywir a bod y risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol;
- Sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i reoli risg.

### 2.3.2 Pwyllgor Archwilio

Yn gyfrifol am adolygu pa mor briodol yw'r prosesau rheoli risg a sicrwydd sydd wedi cael eu sefydlu. Er mwyn gwneud hyn, bydd yn:

- Adolygu ac yn cymeradwyo'r Polisi a'r Canllawiau Rheoli Risg
- Monitro a chyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r modd y mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei rheoli.

### 2.3.3 Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

- Risgiau tyngedfennol o fewn portffolio Aelodau'r Pwyllgor Gwaith
- Sicrhau bod unrhyw risgiau cysylltiedig wedi cael eu hystyried wrth sgriwtineiddio penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith.

## 2.4 Tîm Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol

Bydd y Tîm Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cefnogi gwasanaethau i weithredu'r broses rheoli risg yn effeithiol. Mae'r tîm yn sicrhau bod risgiau a nodwyd yn cael sylw priodol drwy weithredu mesurau effeithiol i liniaru risgiau gan ymgorffori egwyddorion rheoli perfformiad a rheolaeth fewnol.

## 2.5 Rheolwr Risg ac Yswiriant

- Sicrhau bod fframwaith rheoli risg priodol yn ei le, sy'n addas i'r pwrpas ac yn cael ei weithredu'n gyson ar draws y cyngor.

- Yn gyfrifol am ddatblygiad parhaus y fframwaith rheoli risg a'i gydlynu, ac am gadarnhau gwybodaeth mewn perthynas â rheoli risg at ddibenion cyflwyno adroddiadau.

## 2.6 Mae Archwilio Mewnol

Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn darparu sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd y gweithdrefnau a'r mecanweithiau rheoli mewnol sydd wedi cael eu sefydlu i liniaru risgiau ar draws y cyngor. Mae hefyd yn cynnig her annibynnol i sicrhau bod egwyddorion a gofynion rheoli risg yn cael eu mabwysiadu yn gyson ar draws y cyngor. Bydd Archwilio Mewnol yn defnyddio gwybodaeth o'r fframwaith rheoli risg i lywio eu cynllun archwilio yn seiliedig ar risg.


## 2.7 Pob aelod o staff

Mae'r holl staff yn gyfrifol am nodi risgiau yn ogystal â chyfleoedd wrth gyflawni eu dyletswyddau o ddydd i ddydd ac am gymryd camau priodol i reoli risg, neu sicrhau bod person cyfrifol yn cael gwybod.

## 3. Y Broses Asesu Risg

Mae'r broses ar gyfer nodi, asesu, rheoli a monitro risg yn rhan annatod o'r broses reoli. Allwedd i lwyddiant ein hamcanion yw adnabod ac asesu risgiau'n barhaus a chymryd camau priodol i'w lliniaru. Bydd yr amgylchedd allanol sy'n newid a'r penderfyniadau a wneir wrth redeg y Cyngor yn newid yn barhaus statws risgiau a nodwyd a risgiau newydd sy'n dod i'r amlwg. Yn Ffigwr 1, ceir trosolwg o'r broses asesu risg.

**Ffigwr 1 – Proses Asesu Risg**



Y gofrestr risg (atodiad 5) yw'r modd yr ydym yn dogfennu ein risgiau. Ei diben yw darparu dull cyson ar gyfer casglu gwybodaeth ynghylch risg. Ei phrif bwrpas yw helpu i sicrhau ein bod yn gweithredu lle mae angen i ni wneud hynny..

### 3.1 Cyd-destun

Y cam cyntaf yw adolygu'r cyd-destun er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried. Dylid ystyried y canlynol:

- Sgôp y gweithgareddau sydd i'w hasesu (e.e. corfforaethol, gwasanaeth, cydweithio neu brosiect) a'r amcanion neu'r nodau cysylltiedig (e.e. cynlluniau corfforaethol, cynllun darparu gwasanaeth, cylch gorchwyl a nodau prosiect).
- Effaith yr amgylchedd sy'n newid, yn allanol ac yn fewnol. Yn allanol, gall gynnwys newidiadau gwleidyddol, rheoleiddiol, economaidd, deddfwriaethol a chymunedol. Yn fewnol gall gynnwys newid o ran prosesau, disgwyliadau gwasanaethau, galluoedd neu bartneriaid.
- Lefel y risg y mae'r Cyngor yn barod i'w chymryd mewn perthynas â'r gweithgareddau dan sylw.

**Camau Angenrheidiol**

- Wrth adolygu eu risgiau, dylai pob gwasanaeth (corfforaethol neu arall) adolygu'r cyd-destun ar gyfer yr asesiad risg. Dylid gwneud hyn yn unol â'r Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol a phan fydd newidiadau mawr yn digwydd.
- Cyn cynnal asesiad risg mewn perthynas â phrosiect, dylid adolygu'r cyd-destun.

### 3.2 Nodi Risgiau

Ar ôl adolygu'r cyd-destun, mae angen nodi'r risgiau. Dylai pob risg sy'n effeithio ar yr amcanion dan sylw gael eu cofnodi, p'un a ydynt dan reolaeth y Cyngor ai peidio. Mae cyfle yn agwedd gadarnhaol ar risg na ddylid ei hanwybyddu a gellir ei hystyried o bosibl fel cyfle a gollwyd. Dylai pob risg a nodwyd yn cael eu cofnodi ar y gofrestr risg berthnasol, gyda rhif cyfeirnod unigryw (gweler atodiad 6), a chyda perchennog risg.

Mae nifer o ffyrdd o nodi risgiau, gan gynnwys gweithdai i drafod syniadau, cyfarfodydd unigol neu fychan i edrych ar brofiad a chofnodiadau'r gorffennol.

Mae dod o hyd i'r geiriau iawn i ddiffinio risg yn bwysig er mwyn bod yn glir ynghylch beth yw'r risg. Canllaw da yw ein bod yn gallu edrych yn ôl a dweud a yw'r digwyddiad risg wedi digwydd ai peidio. Mae'n syniad da i ddechrau disgrifiad gyda "Y risg bod ...", neu "Mae'r risg o ..." a pheidio â defnyddio ymadroddion byr a allai fod yn agored i ddehongliad, e.e. "Y risg y bydd methiant y system TG XXX yn arwain at amhariad sylweddol ar y ddarpariaeth o wasanaethau" yn hytrach na "methiant TG". Ni ddylid ailysgrifennu amcanion i'w gwneud yn risgiau ac ni ddylid cynnwys materion yn y gofrestr risg.

Er mwyn sicrhau dull cyson, cyfannol ar draws y Cyngor, defnyddir fframwaith o gategorïau (gweler atodiad 2). Mae hwn yn darparu iaith gyffredin er mwyn helpu i adolygu, dadansoddi ac atgyfnerthu gwybodaeth risg ar draws y cyngor. Mae'r categorïau risg hefyd yn 'aide memoir' defnyddiol ar gyfer hysbysu'r broses o adnabod risg (e.e. a oes meysydd yn y categorïau nad ydynt wedi cael eu hystyried?)

**Camau Angenrheidiol**

- Dylid aseinio prerchennog a chyfeirnod unigryw (gweler atodiad 6) ar gyfer yr holl risgiau a nodwyd a'u cofnodi ar y gofrestr risg berthnasol.

### 3.3 Gwerthuso Risg

Ar ôl nodi risg, mae angen asesu'r achosion, canlyniadau / effeithiau posibl a pha mor effeithiol y mae'n cael ei rheoli. Yr achosion sy’n penderfynu ar y tebygolrwydd, a’r canlyniadau sy’n pennu’r effaith. Rheoli’r achos (ion) a’r canlyniad(au) sy'n penderfynu pa mor dda y mae risg yn cael ei reoli (effeithiolrwydd rheoli). Mae hyn yn ei dro yn penderfynu pa gamau gweithredu pellach a all fod eu hangen.

### 3.3.1 Rheoli Risg

Mae risg yn cael ei mesur o safbwynt effaith a thebygolrwydd yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt. Mae'r meini prawf a ddefnyddiwn yn 'lled-feintiol', sy'n golygu eu bod yn fwy nag ymagwedd syml o’u mesur fel rhai uchel, canolig ac isel. Mae hyn yn darparu asesiad mwy gwrthrychol ac yn caniatáu i risgiau gael eu blaenoriaethu a’u huwch-gyfeirio mewn modd cyson. Mae blaenoriaethu yn ein helpu i benderfynu lle y dylem ganolbwyntio ein hymdrechion rheoli risg.

Mae effaith risg yn cael ei fesur mewn pum band eang, o ‘dibwys’ i ‘trychinebus’ a'r tebygolrwydd o ‘go brin’ i ‘bron yn sicr’. Dylai asesiad o debygolrwydd, fod yn seiliedig ar gyfnod amser priodol - bydd hynny yn gyffredinol dros gyfnod y Cynllun Darparu Gwasanaeth, ond gellir ei ymestyn yn unol â chynlluniau tymor hwy os oes angen. Ar gyfer prosiectau, dylid defnyddio amserlen y prosiect.


Mae'r cyfuniad o ganlyniadau effaith a thebygolrwydd yn arwain at asesiad o ba mor agored ydym i risg ar raddfa ddifrifol, fawr, cymedrol neu fychan. Mae'n lefelau hyn yn dweud wrthym a oes angen i ni gymryd camau pellach neu a oes angen uwch-gyfeirio’r risg.

**Camau angenrheidiol**

- Dylai’r holl risgiau a nodwyd gael eu mesur yn ôl eu heffaith a’u tebygolrwydd.

Mae'r meini prawf asesu risg a ddefnyddir yn cael eu dangos yn y ffigwr 2 isod (gweler atodiad 3). Mae cyfres ychydig yn wahanol o feini prawf asesu risg yn cael eu defnyddio ar gyfer Prosiectau a chaiff y rhain eu hamlinellu yn Atodiad 4.

### Ffigwr 2 – Meini Prawf Asesu Risg




**Corporate Risk Severity Key**

| | | |
|---|---|---|
| (green) | Minor | Risk easily managed locally – no need to involve management |
| (yellow) | Moderate | Risk containable at service level – senior management and SLT may need to be kept informed |
| (orange) | Major | Intervention by SLT and / or Executive Committee involvement |
| (red) | Critical | Significant SLT and Executive Committee intervention |

Mae'r disgrifyddion o’r effaith ariannol yn cael eu gosod ar lefel gorfforaethol o berthnasedd fel y bo'n briodol. Cydnabyddir y gall y perthnasedd ym mhob gwasanaeth fod yn is nag ar lefel gorfforaethol, fodd bynnag, cyfres gorfforaethol unigol o feini prawf sy’n cael eu defnyddio.

Mae nifer o wahanol ddisgrifyddion yn cael eu darparu i helpu i amcangyfrif effaith risg - ar wasanaeth / gweithrediadau, enw da a chost ariannol. Pwrpas disgrifyddion lluosog, er nad yw bob amser yn hawdd amcangyfrif effaith y risg yn feintiol, yw bod modd o bryd i’w gilydd eu cymharu â datganiad ansoddol (ee "beirniadaeth gyhoeddus yn y cyfryngau rhanbarthol neu genedlaethol").

Yn ogystal â'r disgrifyddion o’r tebygolrwydd ansoddol, rhoddir rhai canllawiau o ran tebygolrwydd a gellir ystyried y rhain hefyd fel rhai ar gyfer amlder digwyddiad lle mae 1% yn cyfateb i'r tebygolrwydd o 1 mewn digwyddiad 100 mlynedd yn digwydd yn y flwyddyn nesaf, 10% yn 1 mewn digwyddiad 10 mlynedd, a 50% yn 1 mewn digwyddiad flynedd, ac yn y blaen.


Mae'r rhain yn cael eu defnyddio fel canllaw ac i ddarparu cysondeb - ni ddylid eu hystyried fel disgrifyddion manwl gywir. Os yw effaith y risg o fewn y 3 maen prawf effaith, yna dylid eu sgorio gan ddefnyddio’r uchaf o'r tri.

### 3.3.2 Risg Gynhenid a Gweddillol

Mae effaith risg a thebygolrwydd wedi cael eu hasesu ar sail gynhenid a gweddilliol. ***Risg Cynhenid*** yw'r sgôr a roddir i risg gan anwybyddu effaith neu heb roi ystyriaeth i fethiant sylweddol rheolaethau sy'n bodoli eisoes a chyn i unrhyw gamau gweithredu i liniaru'r risg gael eu sefydlu. Y Risg Weddillol yw'r risg fel ag y mae gyda rheolaethau sy'n bodoli eisoes yn eu lle.

Er y gall y risg weddilliol fod yn isel, gallai'r risg cynhenid fod yn uchel oherwydd pwysigrwydd y rheolaethau sydd wedi cael eu sefydlu i reoli'r risg. Mae'r berthynas rhwng y risg gynhenid a gweddilliol yn cael ei ddangos yn y mynydd iâ risg cynhenid isod.

**Ffigwr 3 – Mynydd Iâ Risg Gynhenid**




| **Gweithredu angenrheidiol** |
| --- |
| Dylai’r holl risgiau a nodwyd gael eu mesur ar sail gynhenid ynghyd â sail weddilliol. |

### 3.3.3 Gwerthuso Dulliau Rheoli

Wrth asesu risg weddilliol, bydd y dulliau rheoli presennol yn cael eu hystyried. Dulliau rheoli presennol yw'r dulliau hynny sydd eisoes wedi eu sefydlu ac ni y rheiny yr ydym yn bwriadu eu gweithredu. Mae angen ystyried effeithiolrwydd pob dull rheoli o safbwynt rheoli'r risg, o ran ei ddyluniad a'i effeithiolrwydd gweithredol. Mae effeithiolrwydd dyluniad yn cyfeirio at ba mor dda y mae'r dull rheoli wedi'i gynllunio o ran rheoli risg, a'i effeithiolrwydd gweithredol yn cyfeirio at bo mo'r dda y mae'r dull rheoli'n gweithredu yn erbyn y cynllun hwn. Os yw dull rheoli yn cael ei asesu fel un sy'n llai neu'n fwy effeithiol nag y mae mewn gwirionedd, yna bydd y risg weddilliol wedi cael ei goramcan neu ei than-amcan.

| **Gweithredu Angenrheidiol** |
|---|
| • Ar gyfer y dulliau rheoli a nodwyd, dylid ystyried eu heffeithiolrwydd o ran rheoli'r risg, ac yn sicrhau bod effaith y risg a'i thebygolrwydd yn adlewyrchiad cywir o hyn. |

## 3.4 Cynllunio Camau Gweithredu

Un o brif bwrpas asesiad risg yw penderfynu ar yr angen am unrhyw fesurau rheoli pellach sydd eu hangen i liniaru'r risg a nodwyd ynghyd â graddfa'r mesurau hynny. Yn gyffredinol, mewn achos lle mae'r risg weddilliol yn 'ddifrifol' neu'n 'uchel', mae angen cymryd camau pellach. Os ystyrir ein bod yn agored i risg ar lefel 'gymedrol', yna dylid ystyried yn ofalus yr angen am unrhyw gamau lliniaru pellach a graddfa'r camau hynny. Mewn achosion lle nad oes angen cymryd unrhyw gamau lliniaru pellach, yna dylid nodi'r rhesymeg am y penderfyniad hwnnw. Oherwydd nad yw'n fwriad gennym ddileu pob risg o'r sefydliad, yna yn gyffredinol nid oes angen gweithredu ymhellach yn awtomatig ar risgiau 'isel' ac efallai y bydd adegau lle mae'n briodol ystyried cymryd mwy o risg.

Dylai camau gweithredu gael eu datblygu gyda pherchenogaeth ac amserlenni diffiniedig. Pan gaiff yr asesiad risg ei gynnal ochr yn ochr â'r broses cynllunio busnes, dylid cymryd camau i'w hintegreiddio yn y Cynllun Darparu Gwasanaeth.

Fel arfer, mae pedwar opsiwn ar gyfer gwella rheolaeth risg ac maent yn syrthio i'r categorïau canlynol:

### 3.4.1 Goddef

Bydd rhai risgiau lle mae'r mesurau rheoli cyfredol sydd wedi eu sefydlu yn ddigonol i leihau tebygolrwydd ac effaith y risg (weddilliol) i lefel y gellir ei goddef, ac nad oes angen gwneud unrhyw beth arall neu oherwydd nad yw'n gost effeithiol i geisio ei rheoli ymhellach.

### 3.4.2 Trin y Risg

Y peth mwyaf cyffredin i'w wneud fydd trin y risg, cymryd camau i leihau'r tebygolrwydd neu effaith y risg neu'r ddau. Mae mynd i'r afael ag achos y risg yn gyffredinol yn effeithio ar y tebygolrwydd (e.e. mesurau ataliol megis gwell hyfforddiant). Mae mynd i'r afael â'r canlyniadau yn gyffredinol yn effeithio ar raddfa'r effaith bosibl (e.e. cynlluniau wrth gefn ar gyfer darparwyr gwasanaethau amgen).

### 3.4.3 Trosglwyddo

Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo risg neu ei rhannu gyda pharti arall drwy gymryd camau megis allanoli neu yswiriant. Fel arfer, bydd rhywfaint o gost / budd ariannol yn gysylltiedig â hyn (e.e. premiymau ar gyfer yswiriant). Gallai allanoli neu sefydlu partneriaethau newydd ganiatáu ar gyfer trosglwyddo rhai risgiau, ond mae'n anochel y daw â risgiau newydd a gwahanol y bydd raid eu rheoli.

### 3.4.4 Dwyn gweithgaredd i ben

Mewn rhai achosion, yr opsiwn gorau arall yw dwyn i ben y gweithgaredd sy'n achosi'r risg. Yn ymarferol, gall hyn fod yn anodd i'r Cyngor o ystyried y nifer o swyddogaethau statudol yr ydym yn ymgymryd â nhw. Fodd bynnag, mae llawer o awdurdodau wedi rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau anstatudol oherwydd y risgiau sydd ynghlwm wrth eu gweithredu.

| Camau Angenrheidiol |
| --- |
| • Penderfynu a oes angen cymryd camau pellach, eu dylunio a neilltuo perchennog ar gyfer y risg ynghyd ag amserlen. |

### 3.5 Monitro

Mae monitro risgiau yn weithgaredd rheoli arferol a dylid eu hintegreiddio fel rhan o gyfrifoldebau rheoli llinell arferol. Nid yw Rheoli Risg yn weithgaredd unwaith ac am byth - mae angen iddo fod yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn gweithio. Bydd cynnydd o ran rheoli risg yn cael ei fonitro ac adroddir arno er mwyn sicrhau fod colledion yn cael ei lleihau a'r hyn y bwriedir ei wneud yn cael ei wneud mewn gwirionedd.

| Camau Angenrheidiol |
| --- |
| • Monitro risgiau ar y lefel berthnasol yn rheolaidd gan ddibynnu ar eu pwysigrwydd. Mae'r gofynion sylfaenol ar gyfer adolygu risg yn cael eu nodi yn y Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol (gweler atodiad 7). |
| • Dylai unrhyw risgiau sydd wedi eu cwblhau gael eu cefnogi gan dystiolaeth eu bod wedi eu cwblhau a'u harchifo. |

## 4. Adrodd ar Risgiau

Yn ychwanegol at fonitro arferol, dylid sefydlu cylch rheolaidd ar gyfer adrodd ar risgiau fel y gwelir yn ffigwr 4 isod.

**Ffigwr 4 – Y broses adrodd ar risgiau**




### 4.1 Trefniadau Adrodd

Bydd adroddiadau mewnol rheolaidd yn galluogi uwch reolwyr ac Aelodau i fod yn gwbl ymwybodol o faint y risgiau a'r newidiadau sy'n digwydd iddynt.

Mae trefniadau adrodd mewnol yn darparu ar gyfer wahanol lefelau'r Cyngor, y wybodaeth fwyaf priodol. Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu:

- Monitro'n rheolaidd y broses o nodi a blaenoriaethu risgiau corfforaethol a gwasanaeth fel rhan annatod o'r trefniadau Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol sydd eisoes yn bodoli.
- Adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith ar risgiau corfforaethol a strategol y Cyngor.
- Adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio ar effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg.
- Adroddiadau rheolaidd i'r Aelodau ar y cynnydd o ran rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys cymryd camau mewn perthynas â'r cynlluniau gweithredu.

Bydd y Rheolwr Risg ac Yswiriant yn cynorthwyo gwasanaethau i baratoi risgiau gwasanaeth a risgiau corfforaethol fel y gellir ystyried eu cynnwys o fewn yn y templed ar gyfer y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Bydd yr holl wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y templed wedi cael ei monitro trwy'r Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Cynllunio Corfforaethol. Bydd yr holl risgiau gwasanaeth wedi cael eu cytuno a'u cymeradwyo gan yr Aelod(au) Portffolio perthnasol. Bydd yr holl risgiau corfforaethol wedi cael eu cytuno a'u cymeradwyo gan yr UDA a'r Pwyllgor Gwaith.

### 4.1.1 Uwch-gyfeirio

Darperir y meini prawf canlynol ar gyfer uwch-gyfeirio (gan ddefnyddio'r meini prawf asesu risg) i ddisgrifio lefel yr ymyrraeth reoli sydd ei hangen gan ddibynnu ar ba mor agored y mae'r Cyngor i'r risg. Mae'r meini prawf hyn yn cael eu pennu ar lefel gorfforaethol ac ni fwriedir iddynt awgrymu nad yw risg 'gymedrol' (ar lefel gorfforaethol) yn bwysig i wasanaeth penodol (ar lefel gwasanaeth) ac efallai y bydd angen cymryd camau pellach neu ei monitro ar lefel y gwasanaeth hwnnw.

**Ffigwr 5 – Allwedd o'r Meini Prawf ar gyfer Uwch-gyfeirio**

| | | |
|---|---|---|
| (gwyrdd) | Bychan | Gellir rheoli'r risg yn hawdd yn lleol – dim angen dwyn rheolwyr i mewn |
| (melyn) | Cymedrol | Mae modd cynnal y risg ar lefel gwasanaeth – efallai bydd angen rhoi gwybod i'r uwch reolwyr a'r UDA am unrhyw ddatblygiadau |
| (oren) | Mawr | Ymyrraeth gan yr UDA ac / neu ddwyn y Pwyllgor Gwaith i mewn |
| (coch) | Difrifol | Cryn ymyrraeth gan yr UDA a'r Pwyllgor Gwaith |

**Camau Angenrheidiol**

- Uwch-gyfeirio risgiau'n unol â'r meini prawf ar gyfer uwch-gyfeirio.
- Dylid rhoddi gwybod i'r UDA, drwy'r Rheolwr Risg ac Yswiriant, am unrhyw risgiau mawr neu ddifrifol a nodwyd y tu allan i'r trefniadau Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol arferol. Dylid adrodd ar unrhyw risgiau eraill drwy'r broses reoli arferol.

### 4.2 Cofrestr Risg

Y gofrestr risg (gweler atodiad 5) yw'r modd yr ydym yn dogfennu ac yn adrodd ar risgiau a'r camau gweithredu i'w rheoli a dylid eu cadw'n gyfredol a'u trafod yn rheolaidd fel rhan o'r broses rheoli.

Nid oes rhaid i risgiau gyda mân risgiau cynhenid gael eu hychwanegu at y gofrestr risg oherwydd nid ydynt yn peri pryder sylweddol o ran tebygolrwydd neu effaith. Mae angen cynnwys risgiau gyda risg weddilliol fechan ond risg gynhenid gymedrol, fawr neu ddifrifol oherwydd gallai methiant effeithiolrwydd y dulliau rheoli presennol achosi pryder.

## 5. Defnyddio'r Broses Asesu Risg

### 5.1 Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol

Mae'r Fframwaith Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol yn cynnwys cyfnodau allweddol lle rydym yn adolygu ac yn diwygio ein hamcanion, felly mae'n rhesymegol hefyd i ni adolygu ein risgiau allweddol a'r modd yr ydym yn eu rheoli ar yr un pryd. Mae risg yn cyfeirio at y digwyddiadau hynny a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion ac o'r herwydd, mae cynllunio busnes yn rhoi'r cyfle i ni  edrych ymlaen a mynd ati i reoli risg mewn modd rhagweithiol.

O fewn ein proses gynllunio (e.e. achosion busnes, cynlluniau darparu gwasanaeth) mae angen ystyried:

- Beth sydd angen i ni ei wneud yn ystod y flwyddyn(blynyddoedd) nesaf i gyflawni ein cynlluniau, a beth yw'r risgiau sydd ynghlwm wrth beidio â gwneud y pethau hyn?
- Beth allai fynd o'i le, gyda hynny'n effeithio'n sylweddol ar ein cynllun, a sut y byddem yn sylweddoli hynny mewn da bryd?
- Risgiau Allanol a nodi'r rhai y mae'n realistig i ni gynllunio ar eu cyfer?

**Camau angenrheidiol**

- Dylid asesu risg fel rhan o'r broses cynllunio busnes a'i gynnwys yn y Cynllun Darparu Gwasanaeth. Dylai cofrestrau risg gael eu diweddaru gan wasanaethau er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau sy'n deillio o hyn.
- Wrth fonitro'r Cynllun Darparu Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, dylid yn ogystal, adolygu'r risgiau.

### 5.2 Busnes fel arfer

Cyfrifoldeb rheolwyr llinell yw rheoli risg o ddydd i ddydd. Er y dylid yn ymarferol reoli risg wrth wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd, mae adegau penodol pan fydd cynnydd yn erbyn amcanion a chanlyniadau penderfyniadau gweithredol yn cael eu hadolygu. Dyma pryd y dylid cael trafodaeth ffurfiol ynghylch risg a dyma pryd y dylid hefyd ddiweddaru'r cofrestrau risg i adlewyrchu hyn. Dylid trafod, adolygu ac adrodd ar risg yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rheoli a chyfarfodydd tîm. Caiff risgiau allweddol a chynnydd o ran gweithredu eu hadolygu yn y cyfarfodydd hyn fel y pennir hynny gan ddifrifoldeb y risg.

Disgwylir i bob gwasanaeth a phartneriaeth gynnal cofrestr risg gyfredol. Mater i'r gwasanaeth yw penderfynu a yw hefyd yn cofnodi ei asesiad risg ac yn cynnal cofrestrau risg ar lefel unedau busnes. Bydd hyn yn dibynnu ar faint, cymhlethdod ac ystod y gweithgareddau yn y gwasanaeth.

**Gweithredu angenrheidiol**

- Dylai risgiau gwasanaeth gael eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o gynlluniau busnes fel arfer (e.e. cyfarfodydd rheoli rheolaidd) a dylid ystyried risgiau newydd neu rai sy'n esblygu.
- Rhaid i'r gwasanaeth gadw Cofrestr Risg gyfredol ar gyfer y gwasanaeth.
- Gall gwasanaethau benderfynu a oes angen cofrestrau risg ar gyfer unedau busnes.
- Hunanasesu

## 5.3 Prosiectau

Mae gan brosiectau amcanion clir gan gynnwys sgôp, amserlen a chyllideb wedi'u diffinio'n glir ac o'r herwydd mae'n amlwg y dylid nodi, asesu a rheoli risg fel rhan o brosiectau. Mae'r broses asesu risg yn ei hanfod yr un fath â'r broses ar gyfer busnes fel arfer.

Mae'n werth buddsoddi adnoddau mewn lleihau risg yn ystod cyfnod cynnar y prosiect. Rhaid cael diagnosis o'r risgiau a gododd yn ystod y prosiect a'u datrys a bydd hynny'n ychwanegu at y costau. Yn aml, mae cyfradd y cynnydd yn y gost o safbwynt risg yn esbonyddol, a bydd risgiau y gellir eu lleihau neu eu dileu yn ystod y cyfnod cychwynnol yn talu ar eu canfed o ran cyfyngu ar gyfanswm cost y prosiect. Mae'n well nodi a rheoli risgiau yn ystod cyfnod sefydlu'r prosiect yn hytrach na chaniatáu cronfa wrth gefn ar y sail fod pethau'n siŵr o fynd o chwith, er nad ydym yn gwybod beth fydd yn mynd o'i le!

Caiff y meini prawf ar gyfer asesu risg ariannol eu newid i adlewyrchu pob prosiect (gweler atodiad 4).

**Gweithredu angenrheidiol**

- Dylid cynnal ymarfer asesu risg fel rhan o unrhyw brosiect. Dylid sefydlu cofrestrau risg ar adeg sefydlu'r prosiect a'u cynnal drwy gydol oes y prosiect.
- Dylid ystyried a gafodd risgiau prosiect eu rheoli'n effeithiol fel rhan o'r adolygiadau a'r ôl gweithredu prosiectau.

## Atodiad 1 – Risgiau a Materion

Yn aml iawn, mae risgiau'n cael eu drysu gyda materion.

***"Risg"*** yw 'digwyddiad a fyddai, pe bai'n digwydd, yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus'. Mae risg yn ddigwyddiad posibl neu'n ansicrwydd ar gyfer y dyfodol.

Mae ***"mater"*** yn cyfeirio at ganlyniadau digwyddiad sydd eisoes wedi digwydd a'r camau rheoli sydd ar y gweill neu wedi eu cynllunio i liniaru'r risg.

Y gwahaniaeth, felly, yw nad yw risg wedi digwydd eto ond mae mater yn rhywbeth sydd eisoes wedi digwydd.

Caiff enghreifftiau o risgiau a materion eu cynnwys isod:

| Risg | Mater |
|---|---|
| Y risg y gall gweithwyr gael eu hanafu'n ddifrifol yn y gwaith ar ôl llithro, baglu neu syrthio | Mae cyflwr yr adeilad yn wael ac nid yw'n gwneud i'r gwasanaeth edrych yn broffesiynol |
| Mae'r risg o fethiant yn y system gyflogres yn golygu na fydd staff yn cael eu talu | Mae diffyg buddsoddiad yn y system TG |
| Y risg y bydd setliadau gan Lywodraeth Cymru i'r Cyngor yn y dyfodol yn ansefydlogi sefyllfa ariannol y Cyngor | Mae toriadau i'r gyllideb yn golygu na fydd modd cwrdd ag ymrwymiadau ariannol cyfredol |

Ni ddylid ailysgrifennu materion ac amcanion i'w gwneud yn risg.

## Atodiad 2 – Categorïau o Risg

Mae categorïau risg yn canolbwyntio ar y ffynhonnell y risg, a bwriedir iddynt gael eu defnyddio fel set o awgrymiadau i ystyried senarios a fydd yn arwain at ganlyniadau a fydd yn effeithio ar amcanion penodol.

Gall categoreiddio risg yn llwyddiannus gael ei gymharu â gwerthusiad meddygol effeithiol. Os bydd y meddyg yn gofyn: "Sut ydych chi'n teimlo?" Efallai y bydd y claf yn dweud, "Iawn." Ond mae'r archwiliad yn llawer mwy dadlennol os yw'r meddyg yn gofyn: "Sut mae eich pengliniau'n teimlo? Beth am eich ysgyfaint? Unrhyw boen cefn?". Gyda'r cwestiynau hyn, bydd y claf yn dechrau meddwl yn benodol am rannau o'i gorff.

Mae'r categorïau a ddefnyddir gan y Cyngor hwn yn cael eu cynnwys yn y tabl isod, ac maent yn seiliedig ar gategorïau a ddefnyddir gan gynghorau eraill; ystyried pa mor ddefnyddiol y bydd pob awgrym ar gyfer siapio meddyliau'r rhai sy'n nodi risgiau ac ymdrechion ymarferol i gymhwyso'r categorïau hyn i'r risgiau y mae gwasanaethau wedi'u nodi.

| Gwleidyddol | Economaidd | Cymdeithasol |
|---|---|---|
| Yn codi o'r sefyllfa wleidyddol<br>• Newid ym Mholisi'r Llywodraeth<br>• Cyflawni Polisi Lleol a Blaenoriaethau Strategol<br>• Newid o ran polisi neu flaenoriaethau lleol<br>• Methiant i gadw addewidion i'r etholwyr<br>• Cyfansoddiad gwleidyddol<br>• Sefydlogrwydd y sefyllfa wleidyddol<br>• Cylchoedd etholiadau<br>• Strwythur o ran gwneud penderfyniad<br>• Bysnesu/camddefnydd (twyll, lygredd, diffyg ffocws strategol<br>• Materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth Rheoli enw da<br>• Ymateb i arloesed/moderneiddio. | Yn codi o'r sefyllfa economaidd yn genedlaethol ac yn lleol a sefyllfa benodol y sefydliad<br>• Trysorlys – Buddsoddiadau, Diwygiadau<br>• Sefyllfa o ran benthyciadau, buddsoddiadau a chyfraddau llog<br>• Sefyllfa gyllidebol<br>• Sectorau cyflogaeth allweddol (e.e. gorddibyniaeth ar gyflogwyr allweddol)<br>• Dangosyddion tlodi<br>• Rhagolygon o ran y galw (e.e. ar wasanaethau megis budd-daliadau a gofal cymdeithasol sy'n cael eu harwain gan y galw amdanynt)<br>• Cystadleuaeth rhwng cyflenwyr a'r effaith ar wasanaethau/prisiau<br>• Y sefyllfa economaidd yn gyffredinol/yn rhanbarthol<br>• Ymrwymiadau nad ydynt wedi eu cofnodi<br>• Gwerth/cost cyfalaf neu asedau<br>• Effaith argyfwng sifil (e.e. llifogydd)<br>• Lefelau'r Dreth Gyngor | Yn codi o'r ddemograffeg genedlaethol a lleol a thueddiadau cymdeithasol<br>• Newidiadau cymdeithasol - anghenion disgwyliadau ac agweddau<br>• Proffil demograffig (oed, hîl ac ati)<br>• Patrymau a phroffil preswyl (e.e. tymhorol, teithio i'r gwaith, cyflwr y stoc dai, cymysgedd cyhoeddus/preifat)<br>• Ystadegau/tueddiadau iechyd<br>• Y ddarpariaeth hamdden a diwylliannol<br>• Ystadegau/tueddiadau o ran trosedd<br>• Plant mewn perygl<br>• Pobl hŷn<br>• Cyflogaeth<br>• Dysgu Gydol Oes<br>• Adfywio<br>• Grwpiau neu gymunedau difreintiedig |
| **Deddfwriaethol/Rheoleiddiol** | **Amgylcheddol** | **Cystadleuol** |
| Yn codi o newidiadau cyfreithiol posibl rŵan ac yn y dyfodol a gwybodaeth reoleiddiol y sefydliad<br>• Deddfwriaeth Newydd – Cyfraith Genedlaethol ac Ewropeaidd<br>• Rheoliadau newydd<br>• Sylw gan reoleiddwyr – e.e. archwilwyr/arolygwyr, ymyrraeth<br>• Y modd yr ymateb i feirniadaeth<br>• CPA, ESTYN, CSSIW, JAR ac APA.<br>• CAA – Asesiad Risg Blynyddol, Defnydd o Anoddau, Cyfeiriad y Daith<br>• LAA – dyletswydd statudol i gydweithredu, targedau, perfformiad ac adroddiad blynyddol<br>• Ymddiriedolaeth y Plant<br>• Cyfarwyddyd Ewropeaidd – Caffael<br>• CCA – Parodrwydd ar gyfer Argyfwng, Parhad Busnes<br>• Adran 17 – Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998<br>• Cydraddoldeb – RRA, RED, DSA, EER, GRA | Yn codi o faterion cynhenid sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd ffisegol<br>• Natur yr amgylchedd (trefol, gwledig, cymysg)<br>• Defnydd tir – tir glas, tir llwyd<br>• Materion mewn perthynas â chael gwared ar wastraff ac ailgylchu<br>• Problemau draenio/llifogydd/erydiad/ ymsuddiad/tirlithriadau<br>• Effaith argyfwng sifil (e.e. llifogydd)<br>• Problemau/tagfeydd traffig<br>• Cynllunio, Trafnidiaeth<br>• Llygredd, gollyngiadau, sŵn<br>• Newid hinsawdd<br>• Effeithlonrwydd ynni | Yn codi o ysbryd cystadleuol y sefydliad a pha mor gystadleuol yw'r gwasanaethau ac ati<br>• Safle yn y gynghrair<br>• Y berthynas gydag awdurdodau cyfagos a phartneriaid, e.e. cystadleuol neu gydweithredol<br>• Statws cyfredol/statws a ddeisyfir, e.e. statws Cyngor Rhagorol<br>• Llwyddiant o ran sicrhau cyllid<br>• Natur y ddarpariaeth o wasanaethau<br>• Cystadleuaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, e.e. meysydd parcio<br>• Bidiau am gyllid gan y Llywodraeth<br>• Cost, ansawdd, gwerth am arian<br>• Sector Cyhoeddus yn erbyn y Sector Preifat neu Asiantaethau Eraill<br>. |

## Proffesiynol/Rheolaethol

Yn codi o'r angen i fod yn gymwys o safbwynt rheolaethol a phroffesiynol

- Sylwadau'n codi o adolygiadau cymheiriaid – e.e. ideA, adolygiadau gan ymgynghorwyr, archwilio mewnol ac ati
- Statws proffesiynol/rheolaethol swyddogion allweddol
- Sefydlogrwydd strwythur swyddogion/timau rheoli
- Gallu a chapasiti – y sefydliad ac unigolion
- Newidiadau a phersonoliaethau staff allweddol
- Trosiant, recriwtio a chadw staff, rheoli doniau a chynllunio olyniaeth
- Newid – ei weithredu a'i reoli
- Hyfforddiant a datblygu
- Gweithio mewn partneriaeth
- Fframweithiau a phrosesau rheoli – effeithlon, effeithiol
- Materion proffesiwn-benodol
- Cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd

## Ariannol

Yn codi o'r fframwaith cynllunio a rheolaeth ariannol

- Sefyllfa ariannol yr awdurdod
- Lefel yr arian wrth gefn
- Polisi a rheolaeth gyllidebol
- Dirprwyo'r gyllideb a disgyblaethau ariannol
- Systemau monitro ac adrodd
- Gwendidau o ran rheolaeth – gwrth-dwyll a llygredd
- Incwm a Refeniw
- Grantiau a chyllid allanol
- Yswiriant – digonolrwydd yswiriant, lefelau hunangyllido, tyniadau ac ati
- Cyfalaf
- Cyfraddau llog, chwyddiant, treth incwm ac ati
- Effeithlonrwydd, buddsoddi mewn blaenoriaethau
- Dadfuddsoddi mewn meysydd nad ydynt yn rhai blaenoriaeth

## Cyfreithiol

Yn codi o newidiadau mewn deddfwriaeth ac/neu achosion posibl o dorri deddfwriaeth

- Heriau cyfreithiol, adolygiadau barnwrol
- Digonolrwydd y gefnogaeth gyfreithiol
- Ffiniau o ran cyfrifoldeb corfforaethol a phersonol
- Arian wrth gefn digonol i amddiffyn heriau cyfreithiol neu ymrwymiadau nad ydynt wedi eu cofnodi
- Rheoli Enw Da
- Partneriaethau – Ymrwymiadau Cyfreithiol, ymrwymiadau contractyddol

## Partneriaeth/Contractyddol

Yn codi o bartneriaethau a chontractau

- Partneriaid allweddol – sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol
- Fframweithiau atebolrwydd a ffiniau partneriaethau
- Cynlluniau PFI
- Prosiectau mawr, mentrau ar y cyd
- Gwasanaethau a allanolir
- Rheoli perthynas
- Trefniadau caffael/polisi adnewyddu contractau
- Perfformiad partneriaethau/contractwyr
- Newid – rheoli newid, strategaethau ymadael
- Capasiti a Gallu – cynnydd i gyflawni blaenoriaethau
- Rheoli enw da
- Ymrwymiadau cyfreithiol, ymrwymiadau contractyddol

## Technolegol

Yn codi o newidiadau technolegol a sefyllfa dechnolegol y sefydliad

- Strategaeth dechnolegol
- Newidiadau/datblygiadau technolegol – capasiti i ddelio gyda newidiadau/datblygiadau
- Defnydd cyfredol o dechnoleg/dibyniaeth arno
- Partneriaid technolegol cyfredol neu arfaethedig
- Cyflwr pensaernïol
- Perfformiad a dibynadwyedd cyfredol
- Diogelwch a safonau, e.e. gwasanaeth wrth gefn, adfer, cyfrinachedd
- Galw technolegol – anghenion a disgwyliadau'r cwsmer
- Methiant system allweddol neu brosiect technolegol allweddol
- Cefnogaeth dechnolegol ar gyfer arloesedd
- Caffael y dechnoleg orau a chynnal y system

## Cwsmer/Dinesydd


Yn codi o'r angen i gwrdd ag anghenion neu ddisgwyliadau cyfredol/newidiol cwsmeriaid a dinasyddion.

- Gofal Cwsmer
- Graddfa a natur yr ymgynghori/ymgysylltiad gyda'r gymuned, e.e. grwpiau cymunedol, busnesau lleol, grwpiau ffocws, paneli dinasyddion ac ati
- Demograffeg – dadansoddiad, deall
- Perthynas gydag arweinwyr cymunedol, grwpiau tenantiaid a grwpiau 'gwrthwynebus'
- Gweledigaeth gwasanaethau, e.e. casglu sbwriel, glanhau strydoedd ac ati
- Darparu gwasanaethau – ymateb, atborth, cwynion, canmoliaethau
- Rheoli Enw Da – Cyfathrebu gyda'r cyhoedd a'r cyfryngau
- Canlyniadau ar gyfer yr ardal - LAA (canlyniadau, targedau ac ati)
- Cydlyniant cymunedol

## Ffisegol

Yn codi o beryglon ffisegol neu fuddion posibl sy'n gysylltiedig â pphobl, tir, adeiladau, cerbydau, peiriannau a chyfarpar

- Asedau – Natur a chyflwr yr asedau gan gynnwys cadw cofnodiadau
- Ymrwymiad i iechyd, diogelwch a lles staff, partneriaid a'r gymuned
- Asesiadau risg
- Cofnodiadau o ddamweiniau a digwyddiadau
- Arferion cynnal a chadw
- Parhad busnes
- Diogelwch – staff, asedau, adeiladau, offer, cyfarpar, peiriannau, cerbydau
- Asedau – prynu, prydlesu, gwerthu, rhent, refeniw, incwm, cynnal a chadw
- Strategaeth AD – hyfforddiant, datblygu, iechyd ac ati.



# Atodiad 3 – Meini Prawf Asesu Risg

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LIKELIHOOD | Event is almost certain to occur in most circumstances | >70% | Almost Certain | A | | | | | |
| | Event likely to occur in most circumstances | 30-70% | Likely | B | | | | | |
| | Event will possibly occur at some time | 10-30% | Possible / Moderate | C | | | | | |
| | Event unlikely and may occur at some time | 1-10% | Unlikely | D | | | | | |
| | Event rare and may occur only in exceptional circumstances | <1% | Rare | E | | | | | |
| | | | | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| | | | | | Insignificant | Minor | Moderate | Major | Catastrophic |

| IMPACT | 5 Insignificant | 4 Minor | 3 Moderate | 2 Major | 1 Catastrophic |
|---|---|---|---|---|---|
| Service / Operations | No impact to service quality, limited disruption to operations | Minor impact on service quality, minor service standards are not met, short term disruption to operations | Significant fall in service quality, serious disruption to service standards | Signifiant impact on service quality, multiple service standards not met, long term disruption to operations | Catastrophic fall in service quality and key service standards are not met, long term catastrophic interruption to operations |
| Reputation | Public concern restricted to local complaints | Minor adverse local / public / media attention and complaints | Serious adverse local or minor adverse regional or national media public attention | Serious negative regional or national criticism | Prolonged regional & national condemnation |
| Financial Cost (£) | < £50k | £50k - £250k | £250k - £750k | £750k - £3m | >£3m |

IMPACT

**Corporate Risk Severity Key**

| Colour | Severity | Description |
|---|---|---|
| Green | Minor | Risk easily managed locally – no need to involve management |
| Yellow | Moderate | Risk containable at service level – senior management and SLT may need to be kept informed |
| Orange | Major | Intervention by SLT and / or Executive Committee involvement |
| Red | Critical | Significant SLT and Executive Committee intervention |

# Atodiad 4 – Meini Prawf Asesu Risg Prosiectau

| LIKELIHOOD | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Event is almost certain to occur in most circumstances | >70% | **Almost Certain** | **A** | | | | | | |
| Event likely to occur in most circumstances | 30-70% | **Likely** | **B** | | | | | | |
| Event will possibly occur at some time | 10-30% | **Possible** | **C** | | | | | | |
| Event unlikely and may occur at some time | 1-10% | **Unlikely** | **D** | | | | | | |
| Event rare and may occur only in exceptional circumstances | <1% | **Rare** | **E** | | | | | | |

| | **5** | **4** | **3** | **2** | **1** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Insignificant** | **Minor** | **Moderate** | **Major** | **Catastrophic** |
| **Time / Objectives /Scope** | Insignificant increase to project time. Barely noticeable impact on project scope or objectives | <5% increase to project time. Minor impact on project scope or objectives | 5% - 20% increase to project time . Major impact on project scope or objectives requiring SRO approval | 20% - 50% increase to project time. Impact on project scope or objectives unacceptable to SRO | >50% increase to project time. Project fails to meet objectives or scope |
| **Reputation** | Trust recoverable with little effort or cost | Trust recoverable at modest cost with resource allocation within budgets | Trust recovery demands cost authorisation beyond existing budgets | Trust recoverable at considerable cost and management attention | Trust severely damaged and full recovery questionable and costly |
| **Financial Cost (£)** | Insignificant increase to project cost. | <5% increase to project cost. | 5% - 20% increase to project cost. | 20% - 50% increase to project cost. | >50% increase to project cost. |
| **IMPACT** | | | | | |

| **Severity** | **Management intervention** |
|---|---|
| Minor | Report the new risk through the Highlight Report and Risk Register at the next meeting of the Project Board. Project Manager to monitor and manage the risk throught the normal risk arrangements. |
| Moderate | Email the new risk to the SRO for agreement of the mitigating actions. Report the through the Highlight Report and Risk Register at the next meeting of the Project Board. Project Manager to monitor and manage the risk throught the normal risk arrangements. |
| Major | Email the new risk to the SRO for agreement of the mitigating actions before emailing to the Project Board for agreement. Project Manager to monitor and manage the risk providing weekly updates to the SRO. |
| Critical | Email the new risk to the SRO for agreement of the mitigating actions before emailing to the Project Board for agreement. SRO to alert the SLT of the risk at their next meeting. Project Manager to monitor and manage the risk providing weekly updates to the SRO. |



Fersiwn:1.5.2
Dyddiad Diwygio: 09/12/2015
Rheolydd: Rheolwr Risg ac Yswiriant

## Atodiad 5 – Templed Cofrestr Risg

Nodwch os gwelwch yn dda mai amlinelliad yn unig yw’r isod. Mae templed llawn o’r gofrestr risg ar gael fel dogfen Microsoft Excel ar wahân.

# <Enw’r Gwasanaeth>


**Diweddarwyd:** DD.MM.YY

| Rhif y Risg | Risg | Effaith / Canlyniadau | Perchennog y Risg | Risg Gynhenid | | | Dulliau Rheoli Cyfredol | Risg Weddilliol | | | Camau Ychwanegol sydd eu hangen | | | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr | | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr | Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Targed | |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | |

## Atodiad 6 – Cofrestr Risg: Rhifau Cyfeiriad

| Gwasanaeth: | Cyfeirnod |
|---|---|
| 1. Risgiau Corfforaethol | YM000 |
| 2. Adfywio Economaidd a Chymunedol | EC000 |
| 3. Rheoleiddio | PP000 |
| 4. Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol | ET000 |
| 5. Gwasanaethau Plant | GP000 |
| 6. Gwasanaethau Oedolion | SS000 |
| 7. Tai | GT000 |
| 8. Dysgu | AD000 |
| 9. Adnoddau | CP000 |
| 10. Trawsnewid Corfforaethol | TR000 |
| 11. Busnes y Cyngor | BC000 |

# Atodiad 7 – Fframwaith Cynllunio Corfforaethol a Rheoli Perfformiad




Tudalen 72

## Atodiad 8 – Rhestr Termau

**Rheolaeth -** proses, polisi, arfer neu gamau gweithredu eraill sydd eisoes wedi eu sefydlu i leihau'r risg negyddol neu wella cyfleoedd cadarnhaol. Gall y gair 'rheoli' hefyd gael ei ddefnyddio ar gyfer proses a luniwyd i roi sicrwydd rhesymol mewn perthynas â chyflawni amcanion.

**Digwyddiad** – cyfres benodol o amgylchiadau'n digwydd. Gall digwyddiad fod yn sicr neu ansicr. Gall digwyddiad fod yn ddigwyddiad unigol neu'n gyfres o ddigwyddiadau.

**Effaith** - canlyniad neu effaith y digwyddiad. Gall fod mwy nag un effaith o un digwyddiad. Gall effeithiau amrywio o gadarnhaol i negyddol. Gall effeithiau gael eu mynegi'n ansoddol neu'n feintiol. Caiff effeithiau eu hystyried mewn perthynas â chyflawni amcanion

**Mater** – mae'n cyfeirio at ganlyniadau risg sydd eisoes yn bodoli ac y mae camau rheoli i'w lliniaru eisoes ar y gweill neu wedi'u cynllunio. Mewn amgylchedd prosiect, mae mater yn bwynt neu'n rhywbeth dan sylw y mae cwestiwn neu anghydfod yn ei gylch, neu'n bwynt neu'n fater nad yw wedi'i setlo, ond sy'n cael ei drafod neu'n rhywbeth y mae gwahanol safbwyntiau neu anghytuno yn ei gylch.

**Tebygolrwydd** - yn disgrifio i ba raddau y mae digwyddiad yn debygol o ddigwydd. Gellir mynegi tebygolrwydd yn ansoddol neu'n feintiol. Gellir defnyddio tebygolrwydd neu amlder wrth ddisgrifio risg.

**Risg** - digwyddiad a fyddai, petai'n digwydd, yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion busnes yn llwyddiannus. Mae risg yn fesur a ddefnyddir i ddisgrifio'r ansicrwydd ynghylch digwyddiad a'i effaith bosibl.

**Risg weddilliol** – y risg sy'n parhau ar ôl ystyried y rheolaethau sy'n bodoli eisoes a'u heffeithiolrwydd.

**Risg gynhenid** – y risg cyn ystyried y rheolaethau sy'n bodoli eisoes a'u heffeithiolrwydd.

**Risg Darged** – lefel y risg a ddisgwylir yn y dyfodol ar ôl cwblhau'r camau gweithredu a gynlluniwyd i'w lliniaru.

**Prosiect** - strwythur dros dro sy'n cael ei greu i'r pwrpas o ddarparu un neu fwy o gynhyrchion busnes yn ôl achos busnes y cytunwyd arno mewn ffrâm amser y cytunwyd arno a gyda chyllideb a bennwyd.

**Asesu risg** - y broses gyffredinol o adnabod risg, dadansoddi, cynllunio gweithredu ac adolygu.

**Cofrestr Risg** - y ddogfen lle rydym yn cofnodi ein risgiau.

This page is intentionally left blank

# BLAENRAGLEN WAITH

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

**5 Rhagfyr 2017**

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg |
| E-bost: | MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Ffôn: | 01248 756211 |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **5 Rhagfyr 2017**<br>**13 Chwefror 2018** | **Diweddariad Archwilio Mewnol**<br>• Diweddariad ar y cynnydd diweddaraf gan Archwilio Mewnol o ran sut mae'n cyflwyno'r gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant. | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **5 Rhagfyr 2017**<br>**13 Chwefror 2018** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Allanol**<br>• Diweddariad ar waith Archwilio Allanol:<br>  ○ Archwiliad ar Berfformiad<br>  ○ Archwiliad Ariannol | **Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad – Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Gwilym.bury@audit.wales<br><br>**Rheolwr Archwilio Ariannol – Deloittes**<br>cedge@deloitte.co.uk |
| **5 Rhagfyr 2017** | **Adolygiad o'r Fframwaith a'r Strategaeth Rheoli Risg**<br>• Yn unol â'i gylch gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer y Cyngor yn barhaus. | **Rheolwr Yswiriant a Risg**<br>JulieJones@ynysmon.gov.uk |
| **5 Rhagfyr 2017** | **Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reolaeth Trysorlys ar gyfer 2017/18**<br>• Mae gofynion Adrodd am Arferion Rheoli Trysorlys CIPFA a threfniadau gwybodaeth gan reolwyr yn argymell y dylai awdurdodau lleol, fan leiaf, adrodd ar y sefyllfa canol blwyddyn o ran rheoli'r trysorlys. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa bresennol ar fuddsoddiadau a benthyca. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **13 Chwefror 2018** | **Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**<br>• Dylai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu ei gylch gorchwyl o bryd i'w gilydd i weld a yw'n briodol, gan roi ystyriaeth i ganllawiau'r sector ac anghenion y Cyngor. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **13 Chwefror 2018** | **Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2018/19**<br>• Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (2017) yn gofyn bod y prif swyddog archwilio yn cyflwyno'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn iddo ei gymeradwyo. | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>**MarionPryor@ynysmon.gov.uk** |
| **13 Chwefror 2018** | **Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2018/19 a Gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2018/19**<br>• Mae gofynion Adrodd am Arferion Rheoli Trysorlys CIPFA a threfniadau gwybodaeth gan reolwyr yn argymell y dylai awdurdodau lleol, fan leiaf, adrodd yn flynyddol ar eu strategaeth a chynllun rheolaeth trysorlys, cyn dechrau'r flwyddyn.<br>• Bydd yr adroddiad yn cynnwys y gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2018/19 yn unol â gofynion y Côd Darbodus. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>**MarcJones@ynysmon.gov.uk** |
| **13 Chwefror 2018** | **Cofrestr Risg Gorfforaethol**<br>• Yn unol â'i gylch gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a, lle bo'n briodol, gofyn am ymateb gan y rheolwyr ar gamau gweithredu i reoli risgiau. | **Rheolwr Yswiriant a Risg**<br>JulieJones@ynysmon.gov.uk |
| **13 Chwefror 2018** | **Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol**<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried y cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r materion o lywodraethu neu reoli risg yn y Cyngor. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |

**Eitemau at y Dyfodol**

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **Ebrill 2018** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – Adroddiad y Cadeirydd**<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad y Cadeirydd i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Mehefin 2018** | **Adroddiad Drafft y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 ynglŷn â'r Datganiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2017/18**<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu roi sylwadau ar gynnwys yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol drafft 2017/18 ac i gyfrannu at y gwerthusiadau, y casgliadau a'r argymhellion a gynigir i ddatblygu neu gryfhau elfennau o drefniadau llywodraethiant y Cyngor ymhellach yn ystod 2018/19. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk<br><br>**Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Mehefin 2018** | **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2017/18**<br>• Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn bod y prif swyddog archwilio yn cyflwyno adroddiad a barn archwilio mewnol yn flynyddol, i'w ddefnyddio gan y Cyngor i gyfrannu at ei ddatganiad llywodraethiant. Mae'n rhaid i'r farn archwilio mewnol flynyddol ddod i gasgliad ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu a rheoli risg y Cyngor yn gyffredinol.<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg ar gasgliad y gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod 2017/18. | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **Gorffennaf 2018** | **Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2017/18**<br>• Mae'r adroddiad trysorlys blynyddol yn ofyniad yng ngweithdrefnau adrodd y Cyngor ac mae'n ymwneud â gweithgareddau'r trysorlys am y flwyddyn 2017/18. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Medi 2018**<br>**Chwefror 2019** | **Argymhellion Archwilio Mewnol sy'n weddill**<br>• Adroddiad o'r holl argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Medi 2018** | **Siarter Archwilio Mewnol**<br>• Bydd adolygiad mewnol o'r Siarter Archwilio Mewnol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor iddo ei gymeradwyo | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Medi 2018**<br>**Chwefror 2019** | **Cofrestr Risg Gorfforaethol**<br>• Yn unol â'r cylch gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a, lle bo'n briodol, ofyn am ymateb gan y rheolwyr ar gamau gweithredu i reoli risgiau. | **Rheolwr Yswiriant a Risg**<br>JulieJones@ynysmon.gov.uk |
| **Medi 2018**<br>**Chwefror 2019** | **Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol**<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried y cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r materion o lywodraethu neu reoli risg yn y Cyngor. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **Medi 2018** | **Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ynglŷn â'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2016/17**<br>Un o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw cymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor. Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu felly:<br>• gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2017/18, gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2017/18,<br>• derbyn adroddiad yr Archwiliwr Penodedig ar y cyfrifon a'r ISA 260, a<br>• chymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |